Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
86/2024
Dyddiad cyhoeddi:
12/12/2024

# Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 (2024)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-974-9

Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 (2024)

Awduron: Charlotte Eales, Claire Griffiths

Adroddiad Ymchwil Llawn: Eales, C., Griffiths, C. (2024). *Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 (2024).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth Rhif 86/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/profiadau-dysgwyr-mewn-addysg-ol-16-ebrill-mai-2024

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Y Gangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Crynodeb gweithredol

## 1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar y ffordd y mae pob un ohonom yn byw, yn dysgu ac yn gweithio. Mae cyfyngiadau cymdeithasol gorfodol, ffyrdd newydd o ddysgu, a newidiadau i asesiadau yn arwain at ganlyniadau hirdymor posibl, y mae llawer ohonynt yn dal i ddod i'r amlwg.

1.2 Yn 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer cwmpasu er mwyn nodi'r angen am dystiolaeth ymchwil ynghylch effeithiau parhaus a thymor hwy y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru a oedd rhwng 0 a 19 oed ar ddechrau'r pandemig.

1.3 Canfu'r ymarfer cwmpasu adroddiadau am lesiant meddyliol gwael a mwy o orbryder ymysg myfyrwyr sydd bellach mewn addysg bellach ac addysg uwch.

1.4 Rhwng mis Ebrill a mis Mai 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o fyfyrwyr mewn addysg bellach er mwyn ymateb i'r bwlch a nodwyd mewn tystiolaeth. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar wella dealltwriaeth o brofiadau diweddar dysgwyr 16-24 oed mewn addysg bellach.

1.5 Nod yr ymchwil oedd adeiladu ar ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd yn 2020 ymysg dysgwyr addysg bellach. Canolbwyntiodd yr arolwg yn 2020 yn benodol ar lesiant dysgwyr a chynhwysiant digidol. Nod yr arolwg hwn yn 2024 oedd archwilio'r heriau parhaus a'r heriau newydd y gall pobl ifanc fod yn eu hwynebu yn eu haddysg.

## 2. Canfyddiadau

2.1 Nododd dros draean o’r ymatebwyr fod eu cynlluniau addysg gwreiddiol wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymysg dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal (65.4%), dysgwyr ag anabledd/ADY a nodwyd (65.2%) a dysgwyr dan anfantais economaidd (55.8%).

2.2 Dirywiad yn ansawdd addysg ac iechyd meddwl gwael ers y pandemig oedd y rhesymau a nodwyd amlaf am newidiadau i gyrsiau dysgu y bwriadwyd eu hastudio.

2.3 Nododd ymatebwyr fod salwch meddwl wedi tarfu ar eu dysgu, ac roedd mwy na hanner (52.9%) yr holl ymatebwyr yn ‘cytuno'n gryf’ neu ‘yn dueddol o gytuno’ bod

salwch meddwl, gan gynnwys straen a gorbryder, wedi tarfu ar eu dysgu yn ystod y 12 mis blaenorol.[1]

2.4 Gwelwyd y bwlch rhwng sgoriau llesiant ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr benywaidd yn lledu rhwng 2020 a 2024. Roedd sgôr ymatebwyr benywaidd yn 2024 1.9 pwynt yn is na sgôr ymatebwyr gwrywaidd, o gymharu â gwahaniaeth o 1.1 pwynt rhwng y grwpiau yn 2020.

2.5 Nododd dysgwyr fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu haddysg (71.6%), eu hiechyd meddwl (62.3%) a'u rhagolygon swyddi (39.7%).

2.6 Nododd bron hanner (47.3%) yr ymatebwyr a oedd ym mlwyddyn 11 ym mis Mawrth 2020 fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu rhagolygon swyddi, o gymharu â dim ond 36.0% o'r dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 8.

2.7 Nododd tua 80% o'r ymatebwyr fod ganddynt ddigon o le, cyfarpar a chysylltiad â'r rhyngrwyd i'w galluogi i weithio gartref. Roedd dwy ran o dair (67.2%) yn cytuno eu bod yn cael y llonydd a'r tawelwch sydd eu hangen arnynt i weithio gartref, ond dim ond 40.2% oedd yn teimlo eu bod yn gallu canolbwyntio ac yn teimlo wedi'u cymell wrth weithio ar-lein gartref.

2.8 Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i fynychu eu cyrsiau yn bersonol, ac roedd 82.0% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad ‘Mae'n bwysig fy mod yn mynychu pob sesiwn dysgu sydd wedi'i threfnu yn bersonol’.

## 3. Casgliadau

3.1 Mae iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael yn her sylweddol i ddysgwyr mewn addysg ôl-16.

3.2 Mae gwahaniaethau sylweddol yn bodoli rhwng y rhywiau o ran iechyd meddwl a llesiant a nodwyd. Mae merched yn fwy tebygol o nodi bod salwch meddwl wedi tarfu ar eu haddysg, ac roedd eu sgoriau llesiant yn is na'u cyfoedion gwrywaidd.

3.3 Er bod darparwyr yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at ddiwallu anghenion eu dysgwyr o ran cymorth iechyd meddwl a llesiant, mae galw sylweddol heb ei fodloni o hyd.

[1] Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymatebwyr ‘Dywedwch wrthym i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlynol wedi tarfu ar eich dysgu mewn addysg ôl-16 dros y 12 mis diwethaf?’

3.4 Mae'n bosibl y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil i lenwi'r bwlch parhaus mewn tystiolaeth ar gyfer addysg ôl-16, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd a helpu'r dysgwyr mwyaf bregus i wneud cynnydd.

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ..... 1
Rhestr tablau ..... 5
Rhestr ffigurau ..... 6
Rhestr termau ..... 8
1. Cefndir ..... 10
2. Methodoleg ..... 12
3. Proffil yr ymatebwyr ..... 15
4. Canfyddiadau ..... 18
5. Casgliadau ..... 56
6. Argymhellion ..... 58
7. Atodiadau ..... 60

## Rhestr tablau

Tabl 1: A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig? ....22
Tabl 2: Sut mae eich cwrs yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd a beth fyddai'r dull cyflwyno y byddech yn ei ffafrio?. ....32
Tabl 3: Cymharu profiadau o weithio gartref (2020 a 2024) ....34
Tabl 4: Pa gyfarpar rydych yn ei ddefnyddio i ddysgu gartre? ....34
Tabl 5: Pa rai o'r heriau canlynol rydych yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus?.... ....38
Tabl 6: Cymharu sgoriau SWEMWBS (2020/24) ....45
Tabl 7: Sgoriau SWEMWBS: yn ôl grŵp blwyddyn ....46
Tabl 8: Gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran profiadau o fwlio ac aflonyddu....51
Tabl 9: Dros y 12 mis diwethaf, a ydych wedi gwneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)? ....53

## Rhestr ffigurau


Ffigur 1: Proffil yr ymatebwyr (2024)......15
Ffigur 2: Pa iaith mae eich teulu yn ei siarad gartref fel arfer?......16
Ffigur 3: Dosbarthiad daearyddol ymatebwyr yr arolwg yn ôl ardal cod post ......17
Ffigur 4: Ar ba ffurf roeddech yn dysgu ym mis Mawrth 2020?......18
Ffigur 5: Ym mis Mawrth 2020, ym mha flwyddyn ysgol oeddech chi?......19
Ffigur 6: A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer eich addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig?......20
Ffigur 7: Newid mewn cynlluniau addysg oherwydd y pandemig: yn ôl grŵp.21
Ffigur 8: A fu modd ichi ddychwelyd at eich cynlluniau dysgu gwreiddiol? ....24
Ffigur 9: Wedi dychwelyd at eu cynlluniau dysgu gwreiddiol yn ôl grŵp blwyddyn......25
Ffigur 10: Gyda pha fath o ddarparwr dysgu rydych yn astudio erbyn hyn? ..26
Ffigur 11: Beth rydych yn ei astudio ar hyn o bryd?......26
Ffigur 12: Ydych chi mewn addysg amser llawn neu addysg ran-amser? .....27
Ffigur 13: Yn eich barn chi, pa effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar eich addysg, eich iechyd meddwl a'ch rhagolygon swyddi?......28
Ffigur 14: Effaith y pandemig ar iechyd meddwl ymatebwyr: yn ôl grŵp......29
Ffigur 15: Effaith y pandemig ar addysg ymatebwyr: yn ôl grŵp......29
Ffigur 16: Effaith y pandemig ar ragolygon swyddi ymatebwyr: yn ôl grŵp ...30
Ffigur 17: Effaith y pandemig ar ragolygon swyddi: yn ôl grŵp blwyddyn ......31
Ffigur 18: Beth yw eich profiadau presennol o ddysgu gartref?......33
Ffigur 19: Cyfarpar dysgu gartref cywir yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim......35
Ffigur 20: Sut, ac i ba raddau, y bu tarfu ar eich dysgu mewn addysg ôl-16 yn ystod y 12 mis diwethaf?......36
Ffigur 21: Dysgwyr yr oedd salwch meddwl wedi tarfu ar eu dysgu: yn ôl grŵp......37
Ffigur 22: Dysgwyr yr oedd caledi ariannol wedi tarfu ar eu dysgu yn ôl cais am LCA......38

Ffigur 23: Hyder a gallu ymatebwyr o ran eu profiadau dysgu ers y pandemig…
……..........................................................................................................40
Ffigur 24: Ymatebwch i'r datganiadau canlynol ynglŷn â sut rydych chi'n teimlo ar hyn o bryd:...........................................................................42
Ffigur 25: Sgoriau 2024 SWEMWBS ..............................................................45
Ffigur 26: Teimladau'r ymatebwyr yn ddiweddar ar raddfa o 0 i 10................47
Ffigur 27: Hapusrwydd yr ymatebwyr ddoe ar raddfa o 0 i 10: yn ôl grŵp .....48
Ffigur 28: Hapusrwydd yr ymatebwyr ddoe ar raddfa o 0 i 10: yn ôl grŵp blwyddyn …………………………………………… .........................49
Ffigur 29: Anghenion cymorth ymatebwyr yn ystod y 12 mis diwethaf...........50
Ffigur 30: Lle y nodwyd bod angen cymorth, a yw'r angen hwn wedi cael ei ddiwallu? …………..........................................................................52
Ffigur 31: Yn eich ysgol/coleg chi, a ydych yn gwybod am unrhyw fyfyrwyr nad ydynt yn gallu fforddio prynu cinio/sy'n dod i'r ysgol yn llwglyd? 53
Ffigur 32: Profiadau ymatebwyr o dlodi bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
………………………………………………………………………………. 54

## Rhestr termau

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. (2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd— (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach. (3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud. (4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd. |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) | Lwfans ariannol sydd ar gael i bobl ifanc 16-18 oed (a rhai pobl ifanc 19 oed) yw LCA. Lwfans wythnosol o £40 ydyw, a delir bob pythefnos i ddysgwyr cymwys o Gymru sy'n mynychu ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru neu rywle arall yn y DU. Mae taliadau LCA yn gysylltiedig â phresenoldeb boddhaol a chyflawni nodau dysgu y cytunwyd arnynt, a bennir gan eu hysgol neu sefydliad addysg bellach |

| | |
|---|---|
| | (SAB). Rhaid i ddysgwyr lofnodi Cytundeb Dysgu LCA blynyddol gyda'u hysgol neu SAB. |
| Addysg Bellach | Addysg Bellach |
| ALlau | Awdurdod Lleol |
| Prydau Ysgol am Ddim | Hyd at fis Medi 2022, roedd dysgwyr penodol yng Nghymru, gan gynnwys y rheini y mae eu rhieni'n cael taliadau cymorth amrywiol, megis Credyd Cynhwysol, yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ers hynny, mae Cymru wedi dechrau cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, a disgwylir i'r ddarpariaeth hon fod ar waith yn llawn erbyn 2024. Caiff cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim yn aml ei ddefnyddio fel dangosydd procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol a thlodi. |
| SWEMWBS | Fersiwn fer Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin. |

# 1. Cefndir

1.1 Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar y ffordd y mae pob un ohonom yn byw, yn dysgu ac yn gweithio. Mae cyfyngiadau cymdeithasol gorfodol, ffyrdd newydd o ddysgu, a newidiadau i asesiadau yn arwain at ganlyniadau hirdymor posibl, y mae llawer ohonynt yn dal i ddod i'r amlwg.

1.2 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn [2]awgrymu na chafodd effeithiau'r pandemig eu teimlo i'r un graddau gan bawb, a bod hyn wedi ychwanegu at anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes. Felly, mae angen i ymchwil yn y dyfodol ystyried ffactorau megis hil, rhywedd, natur wledig yr ardal, statws economaidd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anghenion gofal iechyd corfforol neu iechyd meddwl.

1.3 Yn 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer cwmpasu er mwyn nodi'r angen am dystiolaeth ymchwil ynghylch effeithiau parhaus a thymor hwy y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru a oedd rhwng 0 a 19 oed ar ddechrau'r pandemig.

1.4 Canfu'r ymarfer cwmpasu adroddiadau am lesiant meddyliol gwael a mwy o orbryder ymysg myfyrwyr sydd bellach mewn addysg bellach ac addysg uwch. Nid oedd teimladau "syndrom y ffugiwr" yn anghyffredin ymhlith dysgwyr a oedd wedi ennill graddau wedi'u hasesu gan ganolfan yn hytrach na thrwy arholiadau ffurfiol, a chodwyd cwestiynau am 'barodrwydd' llawer o ddysgwyr a ddechreuodd addysg ôl-16 yn ystod ac ar ôl y pandemig.

1.5 Er bod yr arolygon a gynhaliwyd drwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn darparu data cadarn ar iechyd a llesiant dysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, nid oes unrhyw ymchwil gyfatebol sy'n canolbwyntio ar addysg ôl-16 ar hyn o bryd[3]. Cafodd Arolwg Llais y Dysgwr Cymru[4], sy'n helpu Llywodraeth Cymru i ddeall safbwyntiau dysgwyr mewn addysg ôl-16 ac ymateb iddynt, ei gynnal ddiwethaf yn 2015.

[2] Effaith COVID-19 ar Bobl Ifanc ag Anghenion Iechyd Meddwl | YoungMinds
[3] Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (shrn.org.uk) yn casglu data cyfyngedig gan ddysgwyr 16-18 oed mewn ysgolion uwchradd sy'n cynnwys chweched dosbarth.
[4] Arolwg Llais y Dysgwr Cymru | LLYW.CYMRU

1.6 Er bod arolwg mwy diweddar o effaith COVID-19 ar ddysgwyr ôl-16 (2020)[5] wedi darparu sylfaen i ddeall effaith y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru, mae diffyg data parhaus yn y maes hwn o hyd.

1.7 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o ddysgwyr mewn addysg bellach er mwyn ymateb i'r bwlch a nodwyd mewn tystiolaeth. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar wella dealltwriaeth o brofiadau diweddar dysgwyr 16-24 oed mewn addysg bellach.

1.8 Nod yr arolwg hwn oedd archwilio'r heriau parhaus a'r heriau newydd y gall pobl ifanc fod yn eu hwynebu yn eu haddysg. Yn benodol, roedd y rhain yn ymwneud â llesiant meddyliol cynnydd, rhagolygon swyddi a'r gallu i gael gafael ar adnoddau, gan gynnwys trafnidiaeth, cyfarpar dysgu gartref a bwyd.

1.9 Mae'n bosibl bod yr heriau hyn yn deillio'n uniongyrchol o bandemig COVID-19 neu resymau eraill, gan gynnwys yr argyfwng costau byw. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r arolwg hwn.

1.10 Nod yr ymchwil oedd adeiladu ar ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd yn 2020 ymysg dysgwyr mewn addysg bellach. Canolbwyntiodd yr arolwg yn 2020 yn benodol ar lesiant dysgwyr a chynhwysiant digidol. Darperir cymariaethau â chanfyddiadau ymchwil 2020 lle y bo'n briodol.

[5] Arolwg o effaith COVID-19 ar ddysgwyr: crynodeb o'r canlyniadau| LLYW.CYMRU

## 2. Methodoleg

2.1 Datblygwyd arolwg ar-lein gan Gangen Ymchwil Ysgolion Llywodraeth Cymru ar y cyd â chydweithwyr ym maes polisi ac ymchwilwyr mewn perthynas ag addysg ôl-16.

2.2 Lluniwyd yr arolwg gan ddefnyddio llwyfan Smart Survey. Mae'r holiadur wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

2.3 Roedd yr arolwg yn cynnwys pedwar prif faes ffocws: (1) gwybodaeth am ddysgu blaenorol a dysgu presennol, (2) mynediad at addysg, (3) meddyliau a theimladau, a (4) gwasanaethau cymorth. Casglodd yr arolwg amrywiaeth o wybodaeth ddemograffig gan ymatebwyr hefyd.

2.4 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau un dewis, cwestiynau aml-ddewis a chwestiynau penagored, fel bod modd gwneud gwaith dadansoddi ansoddol a meintiol.

2.5 Cafodd cwestiynau'r arolwg eu profi'n wybyddol gyda nifer o ddysgwyr sydd mewn addysg bellach ar hyn o bryd[6].

2.6 Cafodd yr arolwg hwn ei ddosbarthu i ddysgwyr drwy ysgolion, colegau, darparwyr dysgu oedolion a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Cafodd hefyd ei rannu â sefydliadau perthnasol[7] a thrwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, Hwb[8] a Dysg[9].

2.7 Roedd modd cyflwyno ymatebion dros gyfnod o chwe mis rhwng mis Ebrill a mis Mai 2024.

2.8 Cafwyd 1,821 o ymatebion defnyddiadwy (yn dilyn gwaith dilysu a glanhau data – gweler atodiad 2 am ragor o fanylion am y broses lanhau).

[6] Defnyddiwyd y dull hwn i gofnodi prosesau meddwl a dealltwriaeth dysgwyr wrth ymateb i gwestiynau'r arolwg.
[7] Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Grŵp Hyrwyddwr y Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Gyrfa Cymru, ColegauCymru, UCM Cymru, Gwaith Ieuenctid Cymru, grŵp Ieuenctid Cymwysterau Cymru, grŵp ieuenctid CBAC a Senedd Ieuenctid Cymru.
[8] Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau digidol dwyieithog i bob ysgol a gynhelir drwy Hwb er mwyn cefnogi addysgu a dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru.
[9] Dysg yw'r e-gylchlythyr addysg swyddogol gan Lywodraeth Cymru. Nod Dysg yw darparu datblygiadau a diweddariadau ar y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

2.9 Cynhaliwyd dadansoddiad o ddata ansoddol gan ddefnyddio Microsoft Excel. Cafodd y data ansoddol eu dadansoddi'n thematig er mwyn nodi syniadau, pynciau a themâu cyffredin ymysg yr ymatebion.

**Cyfyngiadau**

2.10 Mae cyfyngiadau'r astudiaeth yn cynnwys dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr. Roedd y cyfrannau mwyaf o ymatebwyr o ardaloedd cod post yn Ne Cymru, gan gynnwys Caerdydd ac Abertawe. Nid oedd unrhyw ymatebwyr o ardal[10] Gwynedd nac o rai ardaloedd cod post yn Ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys y Fenni, Bargoed a Threorci.

2.11 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg mewn chweched dosbarth ysgol neu goleg addysg bellach. Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn dilyn prentisiaethau a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith yn gyfyngedig. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil i dargedu'r dysgwyr hyn yn benodol, er mwyn deall a yw eu profiadau'n wahanol i'r rhai a nodwyd yn y gwaith ymchwil hwn.

2.12 Anfonwyd arolwg 2024 at 192 o ddarparwyr addysg bellach ledled Cymru. Ni ellir gwybod a wnaeth pob darparwr ddosbarthu'r arolwg i'w ddysgwyr ac ni chafodd enwau'r darparwyr eu cynnwys yn y data a gasglwyd. O ganlyniad, ni ellir pennu'r ffrâm samplu yn gywir na chanfod a oedd y poblogaethau a ymatebodd i arolygon 2020 a 2024 yn debyg.

2.13 Roedd astudiaeth 2020 yn agored i ymatebwyr mewn addysg bellach ond canolbwyntiodd astudiaeth 2024 ar ddysgwyr 16-19 oed. Roedd hyn yn golygu bod astudiaeth 2020 yn cwmpasu[11] ystod oedran ehangach o ymatebwyr o gymharu ag arolwg 2024. O ganlyniad, gall cymariaethau uniongyrchol rhwng y ddwy set ddata fod yn gyfyngedig.

[10] Yn ystod y cyfnod y bu'r arolwg ar agor, anfonwyd e-bost at ddarparwyr yn gofyn am ymatebwyr o Wynedd, ond ni chynyddodd hyn nifer y cyfranogwyr.


[11] Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg yn 2020 yn 16-19 oed (71%), a 20-24 oed (8%), 25-34 oed (8%), 45-64 oed (6%), 35-44 oed (5%) a 65+ oed (2%) wedi hynny.

# 3. Proffil yr ymatebwyr

3.1 Cafwyd cyfanswm o 1,821 o ymatebion dilys i'r arolwg.

3.2 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau demograffig i'r ymatebwyr a chafwyd yr ymatebion a ddangosir yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1– Proffil yr ymatebwyr (2024) (Sylfaen: 1,821)




3.3 Roedd y gymhareb gwrywaidd/benywaidd yn debyg i raddau helaeth wrth gymharu arolygon 2020 a 2024 (dangosodd canlyniadau 2020 fod 36.1% o'r ymatebwyr yn wrywaidd a 61.6% yn fenywaidd).

3.4 Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (26.2%) fod ganddynt yr hawl i gael prydau ysgol am ddim a nododd cyfran debyg (24.9%) eu bod wedi gwneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a/neu'n cael y lwfans hwnnw.[12]


[12] Ni chasglwyd unrhyw ddata cymharu ar brydau ysgol am ddim nac LCA yn 2020.

3.5 Dangosodd canlyniadau 2024 gyfran uwch o ymatebwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol (11.4% yn 2024 o gymharu â 5.8% yn 2020) a mwy o ymatebwyr a nododd fod ganddynt anabledd neu ADY (22.9% yn 2024 o gymharu â 13.1% yn 2020).

3.6 Roedd llai o ymatebwyr â chyfrifoldebau gofal plant yn 2024 (5.0% o gymharu ag 11.7% yn 2020) a llai o ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol (ALl) (3.2% yn 2024 o gymharu â 14.1% yn 2020).

3.7 Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr am yr iaith/ieithoedd roeddent yn eu siarad gartref. Nododd tri chwarter yr ymatebwyr mai dim ond Saesneg roeddent yn ei siarad gartref a nododd 12% eu bod yn siarad Cymraeg a Saesneg.


Ffigur 2 – Pa iaith mae eich teulu yn ei siarad gartref fel arfer? (Sylfaen: 1,183)




Noder: Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys: Iaith arall/ieithoedd eraill yn unig (2.3%), Cymraeg yn unig (2.1%), Cymraeg, Saesneg ac iaith arall/ieithoedd eraill (0.5%), Cymraeg ac iaith arall/ieithoedd eraill (0.3%).

3.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi rhan gyntaf eu cod post. Gellir gweld dosbarthiad yr ymatebwyr yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3 – Dosbarthiad daearyddol ymatebwyr yr arolwg yn ôl ardal cod post



# 4. Canfyddiadau


## 4.1 Gwybodaeth am ddysgu blaenorol a dysgu presennol

**Ar ba ffurf roeddech yn dysgu ym mis Mawrth 2020?**

4.1.1 Gofynnwyd cwestiynau i'r dysgwyr am eu dewisiadau dysgu blaenorol a'u dewisiadau dysgu presennol. Ym mis Mawrth 2020, cafodd llawer o ysgolion, colegau a phrifysgolion eu gorfodi i gau oherwydd pandemig COVID-19. Gofynnwyd cwestiynau i'r dysgwyr am eu dewisiadau dysgu blaenorol a'u dewisiadau dysgu presennol. Nod yr arolwg oedd deall a wnaeth dewisiadau dysgu unigolion newid oherwydd hyn ac, os felly, sut?

4.1.2 Mae Ffigur 4 yn dangos bod bron 90% o'r ymatebwyr (89.8%) mewn addysg uwchradd orfodol (hyd at flwyddyn 11) ym mis Mawrth 2020.


Ffigur 4 – Ar ba ffurf roeddech yn dysgu ym mis Mawrth 2020? (Sylfaen: 1,643)




Noder: Mae 'Arall' yn Ffigur 4 yn cynnwys y mathau canlynol o ddysgu: Dysgu oedolion, Prentisiaeth, Coleg addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, Hyfforddeiaeth a Phrifysgol.

4.1.3 Roedd pedair rhan o bump (80.3%) o ymatebwyr yr arolwg ym mlwyddyn 8 a blwyddyn 9 ar ddechrau pandemig COVID-19.

Ffigur 5 – Ym mis Mawrth 2020, ym mha flwyddyn ysgol oeddech chi? (Sylfaen: 1,425)




Noder: Mae ‘Arall' yn cynnwys blynyddoedd ysgol 7, 12 a 13.


Noder: Nid yw'n cynnwys blynyddoedd 7, 12 a 13 oherwydd nifer isel yr ymatebion.

**A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig?**

4.1.4 Gofynnwyd i ddysgwyr a wnaeth eu cynlluniau ar gyfer eu haddysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig. Cadarnhaodd dros draean o’r ymatebwyr (37.0%) fod hyn yn wir.

4.1.5 Mae Ffigur 6 yn dangos bod tua thri o bob 10 o ymatebwyr wedi nodi bod eu cynlluniau ar gyfer eu haddysg wedi newid oherwydd y pandemig. Roedd y ffigur hwn yn 42.5% ar gyfer yr ymatebwyr hynny a oedd ym mlwyddyn 11 ym mis Mawrth 2020.


Ffigur 6 – A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer eich addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig?




Noder: Mae nifer sylfaen isel ar gyfer ymatebwyr ym mlwyddyn 11.

4.1.6 Drwy gymharu grwpiau demograffig (Ffigur 7), gwelwyd bod hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal (65.4%) neu'r rheini y nodwyd bod ganddynt anabledd/ADY (65.2%). Roedd dros hanner (55.8%) y dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn teimlo bod eu cynlluniau wedi newid oherwydd y pandemig.

Ffigur 7 – Newid mewn cynlluniau addysg oherwydd y pandemig: yn ôl grŵp




Noder: Mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol.

4.1.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd fod y pandemig wedi achosi newidiadau i'w haddysg, nodi sut. Mae Tabl 1 isod yn dangos mai dirywiad yn ansawdd addysg ac effaith negyddol ar iechyd meddwl oedd y rhesymau a nodwyd amlaf dros newidiadau i gwrs dysgu y bwriadwyd ei astudio.

Tabl 1 – A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig?

| Os ‘do’, a oedd hyn o ganlyniad i rai o'r canlynol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol (Sylfaen: 553) | Nifer y dysgwyr | Canran y dysgwyr |
|---|---|---|
| Effeithiodd y pandemig ar ansawdd yr addysg a gefais. O ganlyniad, ni chefais y graddau roedd eu hangen arnaf i ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio yn wreiddiol | 207 | 37.4 |
| Cafodd y pandemig effaith negyddol ar fy iechyd meddwl ac, o ganlyniad, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio | 179 | 32.4 |
| Newidiodd fy nghynlluniau ar gyfer fy addysg mewn rhyw ffordd arall oherwydd y pandemig | 82 | 14.8 |
| Dewisais gymryd seibiant o ddysgu oherwydd y pandemig. | 71 | 12.8 |
| Enillais raddau wedi'u pennu gan fy ysgol/coleg (yn hytrach na graddau wedi'u hasesu gan ganolfan ar sail arholiadau allanol) a oedd yn is na'r disgwyl, a gwnaeth hynny gyfyngu ar fy opsiynau | 65 | 11.8 |
| Ni chafodd y cwrs dysgu roeddwn yn bwriadu ei ddilyn ei gynnal oherwydd y pandemig | 57 | 10.3 |
| Enillais raddau wedi'u pennu gan fy ysgol/coleg (yn hytrach na graddau wedi'u hasesu gan ganolfan ar sail arholiadau allanol) a oedd yn uwch na'r disgwyl, a rhoddodd hynny fwy o opsiynau i mi | 51 | 9.2 |
| Effeithiodd y pandemig ar fy iechyd corfforol ac, o ganlyniad, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio | 50 | 9.0 |
| Oherwydd anghenion ariannol yn sgil y pandemig, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio yn wreiddiol | 30 | 5.4 |
| Oherwydd cyfrifoldebau gofalu yn sgil y pandemig, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio yn wreiddiol | 29 | 5.2 |

4.1.8 Nododd 71 o'r ymatebwyr (12.8% o'r holl ymatebwyr) eu bod wedi dewis cymryd seibiant o ddysgu oherwydd y pandemig. Esboniodd rhai o'r dysgwyr hyn fod angen iddynt wneud hyn er mwyn darparu cymorth i aelodau o'r teulu, yn arbennig lle roedd rhieni'n weithwyr allweddol neu lle roedd gan frodyr/chwiorydd anghenion arbennig. Roedd eraill wedi cymryd seibiant o ddysgu oherwydd gorbryder, iselder a dirywiad cyffredinol yn eu hiechyd meddwl. Roedd llawer hefyd wedi penderfynu cymryd seibiant am eu bod yn teimlo bod dysgu ar-lein yn llai effeithiol, a nodwyd materion

megis ansawdd gwael addysg, diffyg strwythur, ac anawsterau canolbwyntio. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> “Fel gofalwr ifanc â brawd sydd ar y sbectrwm awtistig, roedd hi'n anodd gofalu amdano wrth ddilyn dosbarthiadau ar-lein. Hefyd, roedd y ffaith bod fy rhiant yn weithiwr allweddol (nyrs) wedi ychwanegu pwysau wrth geisio cydbwyso gwaith ysgol â helpu fy nheulu.”

> “Oherwydd rhesymau iechyd meddwl, cefais hi'n anodd ymdopi yn ystod y cyfyngiadau symud am fy mod yn teimlo'n unig. Doeddwn i ddim yn gallu canolbwyntio gartref felly wnes i ddim y gwaith."

> “Roedd yn rhaid i mi gefnogi aelodau o'r teulu, ac roedd gennyf lawer o gyfrifoldebau yn ystod y pandemig a effeithiodd ar fy addysg. Roedd fy iechyd meddwl yn gwaethygu'n araf.”

> “Er bod llawer o bobl yn teimlo bod gweithio gartref yn fuddiol am eu bod yn teimlo eu bod yn fwy cynhyrchiol mewn amgylchedd ymlaciol, doedd hynny ddim yn wir i mi. Mae angen lle addysgol arnaf, neu weithle o ryw fath er mwyn fy helpu i ganolbwyntio ar y dasg, ac mae angen i rywun ar lefel uwch roi adborth a beirniadaeth i mi er mwyn fy helpu i addasu fy ngwaith.”

4.1.9 Rhoddodd ymatebion ansoddol gan ymatebwyr dystiolaeth bellach o brofiadau personol a myfyrdodau ar effaith pandemig COVID-19 ar addysg unigolion a'u llwybrau gyrfa. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:


- Heriau addysgu gartref: Cafodd rhai unigolion eu haddysgu gartref yn ystod y pandemig, ond nid oedd eu teuluoedd yn gymwys i addysgu, gan effeithio ar ansawdd eu haddysg.
- Effaith ar iechyd meddwl: Cafodd y pandemig effaith negyddol ar iechyd meddwl, gan arwain at broblemau fel lludded, diffyg ffocws, a mwy o orbryder.
- Newidiadau gyrfa: Newidiodd nifer o bobl eu llwybrau gyrfa o ganlyniad i'r pandemig, naill ai oherwydd lludded neu am eu bod wedi sylweddol bod eu dewis feysydd yn ansefydlog.
- Anawsterau dysgu ar-lein: Wynebodd llawer heriau wrth ddysgu ar-lein, gan gynnwys diffyg mynediad at gyfrifiaduron, rhaglenni ysgol aneffeithiol, ac anawsterau o ran cymhelliant.
- Effaith ar raddau: Effeithiodd y pandemig ar raddau o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau megis arholiadau wedi'u canslo, llai o amser astudio, ac amgylcheddau dysgu llai effeithiol.

- Newid mewn safbwyntiau addysgol: Newidiodd safbwyntiau unigolion am addysg, wrth i rai benderfynu canolbwyntio mwy ar sgiliau bywyd ac eraill ailystyried eu nodau academaidd ac o ran gyrfa.
- Trosglwyddo rhwng ysgolion: Bu'n rhaid i rai myfyrwyr symud i ysgolion neu wledydd newydd, gan darfu ar eu haddysg a golygu bod angen iddynt addasu i amgylcheddau newydd.
- Gweithgareddau wedi'u canslo: Cafodd gweithgareddau allgyrsiol ac elfennau ymarferol o gyrsiau yn aml eu canslo, gan effeithio ar brofiadau addysgol cyffredinol y dysgwyr.

**A fu modd ichi ddychwelyd at eich cynlluniau dysgu gwreiddiol?**


4.1.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny yr oedd eu cynlluniau ar gyfer eu haddysg wedi newid oherwydd y pandemig, a oeddent wedi gallu dychwelyd at eu cynlluniau dysgu gwreiddiol ers hynny. Mae Ffigur 8 isod yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr (47.4%) wedi gwneud hynny.

Ffigur 8 – A fu modd ichi ddychwelyd at eich cynlluniau dysgu gwreiddiol? (Sylfaen: 454)



4.1.11 Roedd ymatebwyr a oedd yn iau ar ddechrau'r pandemig yn fwy tebygol o allu dychwelyd at eu cynlluniau dysgu. Mae Ffigur 9 yn dangos bod hyn yn wir ar gyfer 54.4% o'r ymatebwyr ym mlwyddyn 8 ym mis Mawrth 2020 o gymharu â dim ond 37.0% o'r ymatebwyr ym mlwyddyn 11.

Ffigur 9 – Wedi dychwelyd at eu cynlluniau dysgu gwreiddiol yn ôl grŵp blwyddyn?





Noder: Mae nifer sylfaen isel ar gyfer ymatebwyr ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11.

**Gyda pha fath o ddarparwr dysgu rydych yn astudio erbyn hyn?**


4.1.12 Yn arolwg 2024, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod bellach yn chweched dosbarth yr ysgol (46.7%) neu mewn coleg addysg bellach (36.4%) (fel y gwelir yn Ffigur 10).

Ffigur 10 – Gyda pha fath o ddarparwr dysgu rydych yn astudio erbyn hyn? (Sylfaen: 1,601)




Noder: Mae 'Arall' yn cynnwys y mathau canlynol o ddarparwyr: Prentisiaeth, Heb fod mewn addysg bellach – Ysgol hyd at Flwyddyn 11, gweithio neu arall, Hyfforddeiaeth, Prifysgol neu Ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith.

Ffigur 11 – Beth rydych yn ei astudio ar hyn o bryd? (Sylfaen: 1,485)





Noder: Cwestiwn amlddewis.

Noder: Mae 'Arall' yn cynnwys Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Lefel 4 neu uwch, Mynediad at Addysg Uwch.

4.1.13 Roedd bron hanner (47%) y dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg wrthi'n astudio ar lefel UG a Safon Uwch. Roedd un o bob chwech (16.6%) yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru ac roedd cyfran debyg (15.4%) yn dilyn cyrsiau BTEC neu gyrsiau galwedigaethol eraill (Ffigur 11).

4.1.14 . Nododd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (86.7%) a ymatebodd i arolwg 2024 eu bod mewn addysg amser llawn a dim ond 13.3% a nododd eu bod mewn addysg ran-amser (Ffigur 12).

Ffigur 12 –Ydych chi mewn addysg amser llawn neu addysg ran-amser?(Sylfaen: 1,598)





**Ar y cyfan, yn eich barn chi, pa effaith y mae'r pandemig wedi ei chael arnoch?**

4.1.15 Gofynnwyd i'r dysgwyr hefyd beth oedd effaith gyffredinol y pandemig ar eu haddysg, eu hiechyd meddwl a'u rhagolygon swyddi, yn eu barn nhw.

4.1.16 Roedd bron tri chwarter (71.6%) yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith negyddol (negyddol i raddau neu negyddol iawn) ar eu haddysg. Roedd pedwar o bob 10 o ddysgwyr yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu rhagolygon swyddi ac roedd dros 60% (62.3%) yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl (gweler Ffigur 13).


Ffigur 13 – Yn eich barn chi, pa effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar eich addysg, eich iechyd meddwl a'ch rhagolygon swyddi?




4.1.17 Mae Ffigur 14 isod yn dangos, er bod 51.7% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn wrywaidd wedi dweud bod y pandemig wedi cael effaith negyddol i raddau neu effaith negyddol iawn ar eu hiechyd meddwl, y gyfradd ar gyfer yr ymatebwyr a nododd eu bod yn fenywaidd oedd 68.7%, sef gwahaniaeth o 17%.

4.1.18 Nododd dros 60% o'r ymatebwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cael LCA, â phrofiad o fod mewn gofal, neu ag anabledd/ADY fod y pandemig hefyd wedi cael effaith negyddol i raddau neu effaith negyddol iawn ar eu hiechyd meddwl.


Ffigur 14 – Effaith y pandemig ar iechyd meddwl ymatebwyr: yn ôl grŵp




Noder. Mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol.

4.1.19 Mae Ffigur 15 yn dangos bod dwy ran o dair o'r ymatebwyr ym mhob grŵp wedi nodi bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu haddysg.

Ffigur 15 – Effaith y pandemig ar addysg ymatebwyr: yn ôl grŵp




Noder: mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol.

4.1.20 Mae Ffigur 16 yn dangos mai'r ymatebwyr hynny â phrofiad o fod mewn gofal neu y nodwyd bod ganddynt anabledd/ADY oedd fwyaf tebygol o nodi bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu rhagolygon swyddi (52.2% a 48.0% y drefn honno).

4.1.21 Ystyriwyd mai ymatebwyr gwrywaidd oedd lleiaf tebygol o nodi bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, eu rhagolygon swyddi neu eu haddysg.


Ffigur 16 – Effaith y pandemig ar ragolygon swyddi ymatebwyr: yn ôl grŵp




Noder: mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol.

4.1.22 Mae Ffigur 17 yn dangos effaith a nodwyd y pandemig ar ragolygon swyddi ymatebwyr yn ôl grŵp oedran. Nododd bron hanner (47.3%) y dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 11 yn 2020 fod y pandemig wedi cael effaith negyddol iawn neu effaith negyddol i raddau ar eu rhagolygon swyddi, o gymharu â 36% o'r dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 8 yn 2020. Mae'n amlwg bod yr ymatebwyr a oedd ym mlwyddyn 11 yn 2020 yn teimlo bod y pandemig wedi cael mwy o effaith ar eu rhagolygon swyddi na'r rheini yn y blynyddoedd oddi tanynt.

Ffigur 17 – Effaith y pandemig ar ragolygon swyddi yn ôl grŵp oedran yn 2020




Noder: mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 11.

Noder: Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau blwyddyn wrth ddadansoddi effaith y pandemig ar addysg ac iechyd meddwl yr ymatebwyr, felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys.

## 4.2 Y gallu i ddysgu

4.2.1 Yn arolwg 2024, gofynnwyd i'r dysgwyr am eu profiadau presennol o ddysgu ar-lein, dysgu gartref ac unrhyw darfu ar eu dysgu yn ddiweddar.

**Sut mae eich cwrs yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd a beth fyddai'r dull cyflwyno y byddech yn ei ffafrio?**

4.2.2 Nododd tua dwy ran o dair (67.9%) o'r ymatebwyr fod eu cwrs dysgu presennol yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb. Hwn hefyd oedd y dull dysgu a ffafriwyd gan 59.3% o'r ymatebwyr, gyda chanran fach yn ffafrio dysgu ar-lein (Tabl 2).

Tabl 2 – Sut mae eich cwrs yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd a beth fyddai'r dull cyflwyno y byddech yn ei ffafrio?


| Math o ddysgu | Nifer y dysgwyr presennol | % y dysgwyr presennol | Nifer a oedd yn ffafrio'r math o ddysgu | % a oedd yn ffafrio'r math o ddysgu |
|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb yn gyfan gwbl | 1,068 | 67.9 | 929 | 59.3 |
| Wyneb yn wyneb yn bennaf gyda rhywfaint o adnoddau addysgu ar-lein | 384 | 24.4 | 387 | 24.7 |
| Yr un faint o ddysgu ar-lein ac addysgu wyneb yn wyneb | 59 | 3.7 | 158 | 10.1 |
| Ar-lein yn bennaf gyda rhywfaint o addysgu wyneb yn wyneb | 32 | 2 | 61 | 3.9 |
| Ar-lein yn gyfan gwbl heb unrhyw addysgu wyneb yn wyneb | 31 | 2 | 32 | 2 |
| Cyfanswm | 1,574 | 100 | 1,567 | 100 |

**Beth yw eich profiadau presennol o weithio gartref?**

4.2.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu profiadau presennol o ddysgu gartref. Nododd tua 80% o'r ymatebwyr fod ganddynt ddigon o le, cyfarpar a chysylltiad â'r rhyngrwyd i'w galluogi i weithio gartref.

4.2.4 Roedd tua dwy ran o dair (67.2%) o'r ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' neu 'yn dueddol o gytuno' eu bod yn cael y llonydd a'r tawelwch sydd eu hangen arnynt i weithio gartref.

Ffigur 18 – Beth yw eich profiadau presennol o ddysgu gartref? Dywedwch wrthym i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau isod.




4.2.5 Mae rhai cymariaethau â'r ymatebion a gasglwyd yn 2020 ar gael. Mae Tabl 3 yn dangos gostyngiad bach yng nghyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno â phob datganiad.

Tabl 3 – Cymharu profiadau o weithio gartref (2020 a 2024)

| Datganiad | 2020 (%) | 2024(%) | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|
| Mae gennyf gysylltiad da â'r rhyngrwyd gartref | 93.5 | 84.9 | -8.6 |
| Mae gennyf y cyfarpar cywir i weithio gartref | 84.6 | 82.6 | -4 |
| Mae gennyf fy lle fy hun i ddysgu gartref | 83.8 | 80.4 | -3.4 |
| Mae gennyf fy nghyfarpar fy hun ac nid oes rhaid i mi ei rannu ag aelodau eraill o'r cartref/teulu | 80.6 | 79.1 | -1.5 |
| Rwy'n cael y llonydd a'r tawelwch sydd eu hangen arnaf i weithio gartref | 72.5 | 67.2 | -5.3 |

Noder: Mae'r tabl hwn yn dangos nifer yr ymatebwyr a oedd yn 'cytuno' neu 'yn dueddol o gytuno' â'r datganiadau.
Noder: Ychwanegwyd yr ansoddair 'da' at y cwestiwn yn arolwg 2024, a all fod wedi dylanwadu ar yr ymateb.
Noder: Ychwanegwyd yr ansoddair 'cywir' at y cwestiwn yn arolwg 2024, a all fod wedi dylanwadu ar yr ymateb.
Noder: O ganlyniad i'r dull samplu cyfleus hunanddewis, nid yw'n bosibl asesu a oedd y grwpiau a ymatebodd i bob arolwg yn debyg, felly cymhariaeth ddangosol ydyw yn unig.

4.2.6 Nododd pedwar o bob pump o ymatebwyr (80.9%) eu bod wedi defnyddio llechen i ddysgu gartref a nododd 70.1% eu bod wedi defnyddio gliniadur. Nododd 52.9% o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio ffôn clyfar i ddysgu gartref. Dim ond 33 o ymatebwyr a nododd nad oedd ganddynt fynediad at unrhyw gyfarpar i'w galluogi i ddysgu gartref (Tabl 4).


Tabl 4 – Pa gyfarpar rydych yn ei ddefnyddio i ddysgu gartref? Dewiswch bob un sy'n berthnasol' (Sylfaen: 1,821)

| Cyfarpar | Nifer y dysgwyr | Canran y dysgwyr (%) |
|---|---|---|
| Llechen | 1,473 | 80.9 |
| Gliniadur | 1,276 | 70.1 |
| Ffôn clyfar | 964 | 52.9 |
| Dim | 33 | 1.8 |

Noder: nid yw defnyddio cyfarpar dysgu gartref yn golygu eu bod yn berchen ar y cyfarpar.
Noder: cwestiwn amlddewis.

4.2.7 Mae Ffigur 19 yn dangos mai dim ond hanner (49.6%) yr ymatebwyr hynny a nododd eu bod wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn flaenorol oedd yn 'cytuno'n gryf' fod ganddynt y cyfarpar cywir i weithio gartref. Mae hyn yn cymharu â 61.9% o'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ffigur 19 – Cyfarpar dysgu gartref cywir yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim




## 4.3 Tarfu ar ddysgu

4.3.1 Nod yr adran hon o'r arolwg oedd ceisio archwilio'r ffactorau a allai fod wedi atal ymatebwyr rhag dysgu hyd eithaf eu gallu dros y 12 mis blaenorol.


4.3.2 Mae Ffigur 20 yn dangos bod mwy na hanner (52.9%) yr holl ymatebwyr yn cytuno bod eu hiechyd meddwl, gan gynnwys straen a gorbryder, wedi tarfu ar eu dysgu. Roedd mwy na dwy ran o bump (42.7%) hefyd yn cytuno bod absenoldeb athrawon wedi tarfu ar eu dysgu yn ystod y 12 mis blaenorol.

Ffigur 20 – Sut, ac i ba raddau, y bu tarfu ar eich dysgu mewn addysg ôl-16 yn ystod y 12 mis diwethaf?



4.3.3 Ymhlith yr ymatebwyr hynny a nododd fod ganddynt anabledd neu ADY, cynyddodd y gyfran a ddywedodd fod salwch meddwl wedi tarfu ar eu dysgu (o 52.9%) i ddwy ran o dair (67.2%). Gwelwyd bod ymatebwyr benywaidd yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi bod salwch meddwl wedi tarfu ar eu dysgu (63.0% a 36.0% yn y drefn honno) (gweler Ffigur 21).


Ffigur 21 – Dysgwyr yr oedd salwch meddwl wedi tarfu ar eu dysgu yn ôl grŵp




Noder: mae nifer sylfaen isel ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.

4.3.4 Mae Ffigur 22 yn dangos bod ymatebwyr a oedd yn cael LCA ddwywaith yn fwy tebygol na'r rheini nad oeddent wedi gwneud cais am LCA o nodi bod caledi ariannol/costau byw wedi tarfu ar eu dysgu (43.7% a 21.9% yn y drefn honno).

Ffigur 22 – Dysgwyr yr oedd caledi ariannol wedi tarfu ar eu dysgu yn ôl cais am LCA




**Pa rai o'r heriau canlynol rydych yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus?**

4.3.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r heriau penodol y maent yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Tabl 5 yn dangos mai dibynadwyedd, cost ac amser teithio a nodwyd fel y prif faterion, a oedd yn effeithio ar dri chwarter neu fwy o'r ymatebwyr.

Tabl 5 – Pa rai o'r heriau canlynol rydych yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus?

| Her | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr holl ymatebwyr %(Sylfaen: 1,821) | Canran yr ymatebwyr yr oedd trafnidiaeth yn tarfu ar eu dysgu (Sylfaen: 255) |
|---|---|---|---|
| Dibynadwyedd | 222 | 12.2 | 87.1 |
| Cost | 200 | 11.0 | 78.4 |
| Amser teithio | 191 | 10.5 | 74.9 |
| Argaeledd | 159 | 8.7 | 62.4 |
| Cysur a glendid | 102 | 5.6 | 40.0 |
| Diogelwch | 50 | 2.7 | 19.6 |
| Problemau hygyrchedd | 31 | 1.7 | 12.2 |
| Arall | 24 | 1.3 | 9.4 |

Noder: Roedd yr ymatebwyr hyn wedi nodi'n flaenorol fod trafnidiaeth yn tarfu ar eu dysgu (gweler Ffigur 8).

4.3.6 Rhoddodd 88 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol am heriau ychwanegol y maent yn eu hwynebu o ran eu haddysg oherwydd ADY.

4.3.7 Nododd dysgwyr ag ADY ac ADHD eu bod yn aml yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio, dod o hyd i'r cymhelliant a rheoli eu hemosiynau. Gwnaethant hefyd nodi eu bod yn gorfod wynebu heriau cymdeithasol a bwlio, sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u gallu i ddysgu.

> "Rwy'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio ac yn gorfod cymryd seibiannau bob awr er mwyn cadw'n gynhyrchiol, ond dyw'r ysgol ddim yn darparu ar gyfer hyn."

4.3.8 Mae dysgwyr â dyslecsia a dyspracsia yn aml yn gweithio'n fwy araf na'u cyfoedion a gwnaethant nodi anawsterau wrth ysgrifennu, darllen a deall tasgau. Rhannodd dysgwyr hefyd brofiadau o boen corfforol neu flinder, a all rwystro eu ffocws a'u cynhyrchiant.

4.3.9 Nododd rhai dysgwyr nad oedd eu hysgolion neu eu colegau wedi darparu'r cymorth neu addasiadau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol. Gall y diffyg cymorth hwn arwain at fwy o straen, dirywiad mewn perfformiad academaidd, ac effeithiau negyddol ar iechyd meddwl.

> “Rwy'n awtistig ac mae angen imi ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer arholiadau, ond yn aml, dyw'r ysgol ddim yn ei ddarparu ac mae hyn yn arwain at fwy o straen cyn arholiad.”

4.3.10 Rhoddodd dysgwyr ag anableddau corfforol, megis nam ar y clyw neu broblemau symud, enghreifftiau lle y gallant ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddeunyddiau dysgu a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r ystafell ddosbarth.

> “Mae bod yn fyddar yn effeithio ar fy ngallu i weithio fel grŵp neu pan fydd yr athro yn siarad neu'n chwarae rhywbeth sain i ni.”

4.3.11 Nododd dysgwyr fod problemau iechyd meddwl, fel gorbryder, anhwylder straen wedi trawma, neu iselder, yn ei gwneud hi'n anodd canolbwyntio, dod o hyd i'r cymhelliant, a rheoli eu hemosiynau. Dywedwyd bod diffyg dealltwriaeth a chymorth gan addysgwyr yn gwaethygu'r heriau hyn.

## 4.4 Meddyliau a theimladau


4.4.1 Nod yr adran hon oedd deall mwy am lesiant ymatebwyr ac unrhyw effaith y gall pandemig COVID-19 fod wedi ei chael.

**Disgrifiwch eich profiad dysgu ers y pandemig**

4.4.2 Mae Ffigur 23 yn dangos bod mwy na hanner yr ymatebwyr wedi nodi bod eu nodau o ran gyrfa wedi cynyddu (58.1%) a bod eu diddordeb yn eu hastudiaethau wedi cynyddu (52.6%).

4.4.3 Nododd bron hanner yr ymatebwyr (48.6%) fod eu gallu i weithio'n dda fel rhan o dîm wedi gwella ers y pandemig.

Ffigur 23 – Hyder a gallu ymatebwyr o ran eu profiadau dysgu ers y pandemig



4.4.4 Mae'n amlwg bod rhai dysgwyr yn dal i deimlo diffyg hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gan fod bron un rhan o dair (32.9%) o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod hyn wedi gwella ers y pandemig.

4.4.5 Roedd ymatebwyr yn gadarnhaol am eu teimladau presennol (Ffigur 23). Nododd bron hanner y dysgwyr (49.8%) fod eu hyder a'u gallu i ddysgu wedi gwella, a nododd bron hanner yr ymatebwyr (52.6%) fod eu diddordeb yn eu hastudiaethau wedi cynyddu.


4.4.6 Nododd bron 60% o'r ymatebwyr (58.1%) fod eu nodau o ran gyrfa wedi cynyddu ers y pandemig.

**Sut rydych chi'n teimlo am eich darparwr dysgu ar hyn o bryd?**

4.4.7 Mae Ffigur 24 yn dangos bod 70% o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod dysgwyr eraill ar eu cwrs yn parchu eu syniadau a'u safbwyntiau.

4.4.8 Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r gallu i fynychu eu cyrsiau yn bersonol, ac roedd mwy na 80% (82%) ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad ‘Mae'n bwysig fy mod yn mynychu pob sesiwn dysgu sydd wedi'i threfnu yn bersonol’. Yn yr un modd, roedd bron hanner (48.2%) yr ymatebwyr yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad eu bod yn teimlo bod mynychu sesiynau dysgu a drefnwyd yn bersonol yn llai pwysig ers y pandemig. Fodd bynnag, roedd chwarter yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn.

Ffigur 24 – Ymatebwch i'r datganiadau canlynol ynglŷn â sut rydych chi'n teimlo ar hyn o bryd:



**Llesiant Meddyliol – Sut rydych chi wedi teimlo dros y pythefnos diwethaf?**

4.4.9 Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn adroddiad 2020[13], defnyddiodd yr arolwg raddfa wedi'i dilysu er mwyn cael cipolwg ar lesiant meddyliol y sampl ar ffurf fersiwn fer o Raddfa a Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin[14] (SWEMWBS – gweler Atodiad 3 am wybodaeth am ddull sgorio'r raddfa).

4.4.10 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddisgrifio eu profiadau dros y pythefnos diwethaf fel a ganlyn: 'Dyma rai datganiadau am deimladau a meddyliau. Dewiswch yr ateb sy'n disgrifio'ch profiad o bob un dros y pythefnos diwethaf orau.' "Rwyf wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol."

- "Rwyf wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol."
- "Rwyf wedi gallu ymlacio."
- "Rwyf wedi bod yn ymdopi'n dda â phroblemau."
- "Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir."
- "Rwyf wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill."
- "Rwyf wedi gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun am bethau."

4.4.11 Wrth gael eu trosi gan ddefnyddio methodoleg sgorio SWEMWBS, roedd y sgoriau yn amrywio o isafswm sgôr o 7 (y sgôr llesiant isaf) i uchafswm sgôr o 35 (y sgôr llesiant uchaf), felly mae sgoriau uwch yn dangos llesiant meddyliol cadarnhaol uwch.

4.4.12 Gwerth cymedrig y sgôr ar gyfer yr ymatebwyr oedd 21.7. Mae'r ffigur hwn bron dau bwynt (1.7) yn uwch na'r sgôr gymedrig yn 2020 (20), sy'n dangos llesiant meddyliol cadarnhaol uwch ymhlith yr ymatebwyr yn sampl 2024 (gweler Tabl 6).

4.4.13 Er mwyn cymharu, nododd Arolwg Iechyd Lloegr (2021)[15] sgôr gymedrig o 25.7 ar gyfer yr un metrig ar gyfer dysgwyr 16-33 oed. Felly, nodwyd sgoriau sylweddol is ar gyfer ymatebwyr arolygon 2020 a 2024.

---

[13] Arolwg o effaith COVID-19 ar ddysgwyr: crynodeb o'r canlyniadau | LLYW.CYMRU

[14] Datblygwyd WEMWBS fel ffordd o fonitro llesiant meddyliol y boblogaeth gyffredinol a gwerthuso prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella llesiant meddyliol. Er na chafodd y raddfa ei chynllunio i fonitro llesiant meddyliol ar lefel unigol, mae ymchwil (ymysg oedolion) yn awgrymu y gallai nodi newidiadau sy'n ystyrlon yn glinigol.

[15] Unigrwydd a llesiant – NHS England Digital

4.4.14 Roedd sgôr SWEMWBS ar gyfer ymatebwyr yr arolwg hwn yn is na'r sgôr llesiant a nodwyd yn arolwg 2021/2022 (23) ac arolwg 2023 (23.5) [16]y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion[17].

4.4.15 Mae sgôr SWEMWBS ar gyfer pob un o'r grwpiau demograffig a gofnodwyd yn 2024 ychydig yn uwch na'r rheini a gofnodwyd yn 2020, ar wahân i'r sgôr ar gyfer ymatebwyr â chyfrifoldebau gofal plant.

4.4.16 Ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd y cofnodwyd y sgôr llesiant grŵp uchaf (22.7) ac ar gyfer dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwyr gyda'u ALI y cofnodwyd y sgôr isaf (19.2). Dysgwyr gwrywaidd oedd yr unig ymatebwyr â sgôr llesiant uwch na'r sgôr gymedrig ar gyfer holl ymatebwyr yr arolwg.

4.4.17 Roedd y bwlch rhwng sgoriau llesiant ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr benywaidd yn fwy yn 2024 o gymharu â 2020. Roedd sgôr ymatebwyr benywaidd yn 2024 1.9 pwynt yn is na sgôr ymatebwyr gwrywaidd, o gymharu â gwahaniaeth o 1.1 pwynt rhwng y grwpiau yn 2020.

4.4.18 Dim ond ymatebwyr â chyfrifoldebau gofal plant oedd â sgôr llesiant is yn 2024 o gymharu â 2020. Yn lle sgôr llesiant uwch na'r cyfartaledd (fel yn 2020), cofnodwyd sgôr llesiant is na'r cyfartaledd ar eu cyfer (gostyngiad o 0.8).


[16] SHRN-2021-22-National-Indicators-Report-FINAL-en – Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion
[17] Dangosfwrdd Iechyd a Llesiant Plant

Tabl 6 – Cymharu sgoriau 2020/24 SWEMWBS

| Grŵp | Sgôr 2020 | Sgôr 2024 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 20.9 | 22.7 | 1.8 |
| Yr holl ymatebwyr | 20.0 | 21.7 | 1.7 |
| Gwyn | 20.1 | 21.6 | 1.5 |
| Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 19.9 | 21.1 | 1.2 |
| Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Dd/G | 20.9 | DD/G |
| Benywaidd | 19.8 | 20.8 | 1.0 |
| Yn cael LCA | Dd/G | 20.8 | Dd/G |
| ADY | 19.1 | 20.3 | 1.2 |
| Cyfrifoldebau gofal plant | 21.0 | 20.2 | -0.8 |
| Cyfrifoldebau gofalu | 19.7 | 19.9 | 0.2 |
| Profiad o fod mewn gofal | Dd/G | 19.4 | Dd/G |
| Wedi cofrestru'n ofalwr gyda'r ALI | Dd/G | 19.2 | Dd/G |

Noder: ni chafodd y meysydd lle y nodwyd ‘Dd/G’ eu cynnwys yn arolwg 2020 felly ni ellir cymharu.
Noder: nifer bach iawn o ddysgwyr â chyfrifoldebau gofalu a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, sef 45.
Noder: nifer bach iawn o ddysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u ALI a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, sef 27.
Noder: O ganlyniad i'r dull samplu cyfleus hunanddewis, nid yw'n bosibl asesu a oedd y grwpiau a ymatebodd i bob arolwg yn debyg, felly cymhariaeth ddangosol ydyw yn unig.

Ffigur 25 – Sgoriau 2024 SWEMWBS



4.4.19 Mae Tabl 7 yn cyflwyno sgoriau llesiant ymatebwyr yn ôl grŵp oedran, ac mae'n amlwg nad oes unrhyw wahaniaethau clir rhwng grwpiau blwyddyn.


Tabl 7 – Sgoriau SWEMWBS: yn ôl grŵp blwyddyn

| Grŵp Blwyddyn | Sgôr SWEMWBS |
|---|---:|
| Blwyddyn 11 (Sylfaen: 57) | 20.8 |
| Blwyddyn 10 (Sylfaen: 114) | 21.1 |
| Blwyddyn 9 (Sylfaen: 399) | 21.6 |
| Blwyddyn 8 (Sylfaen: 485) | 21.3 |

**Sut rydych chi'n teimlo am eich bywyd?**


4.4.20 Gofynnwyd pedwar cwestiwn i'r ymatebwyr am eu teimladau am agweddau ar eu bywyd, a gofynnwyd iddynt ymateb ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu “ddim o gwbl” a 10 yn golygu “yn gyfan gwbl”. Mae Ffigur 26 yn darparu'r sgoriau cymedrig a ddyfarnwyd ar gyfer pob cwestiwn.

Ffigur 26 – Teimladau'r ymatebwyr yn ddiweddar ar raddfa o 0 i 10




4.4.21 Cafodd yr ymateb i'r cwestiwn “Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch cynnydd y dyddiau hyn?” ei ddadansoddi ymhellach yn ôl grŵp demograffig, fel y gwelir yn Ffigur 27 isod. Ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd y cofnodwyd y sgôr gymedrig uchaf ac ar gyfer yr ymatebwyr hynny yr oedd eu rhywedd yn wahanol i'w rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni y cofnodwyd y sgôr isaf (sgoriau cymedrig o 6.1 a 4.1, yn y drefn honno).

Ffigur 27 – Hapusrwydd yr ymatebwyr ddoe ar raddfa o 0 i 10: yn ôl grŵp





Noder: nifer bach o ymatebion a gafwyd gan ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr wedi'u cofrestru'n ofalwr gyda'u hawdurdod lleol a dysgwyr a nododd fod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar eu cyfer ar adeg eu geni.

Noder: Mae ‘0’ yn golygu “ddim o gwbl” a ‘10’ yn golygu “yn gyfan gwbl”.

4.4.22 Edrychwyd ar y canlyniadau hefyd yn ôl y grŵp blwyddyn yr oedd yr ymatebwyr yn perthyn iddo ar ddechrau'r pandemig. Gwelwyd mai'r rheini a oedd ym mlwyddyn 11 ym mis Mawrth 2020 a nododd y lefelau hapusrwydd isaf. Gwelwyd bod lefelau hapusrwydd yn cynyddu fesul grŵp blwyddyn.  Ar gyfer y rheini a oedd ym mlwyddyn 8 ar ddechrau'r pandemig y cofnodwyd y sgôr hapusrwydd gyfredol uchaf.

Ffigur 28 – Hapusrwydd yr ymatebwyr ddoe ar raddfa o 0 i 10: yn ôl grŵp blwyddyn




Noder: nifer bach o ymatebion a gafwyd gan ymatebwyr ym mlwyddyn 11.

Noder: Mae '0' yn golygu "ddim o gwbl" a '10' yn golygu "yn gyfan gwbl".

## 4.5 Gwasanaethau cymorth


4.5.1 Nod yr adran hon o'r arolwg oedd deall mwy am unrhyw faterion y gallai fod gan ddysgwyr gwestiynau yn eu cylch, a allai fod yn peri anhawster iddynt, neu y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt mewn perthynas â nhw.

**A fu angen help arnoch yn ystod y 12 mis diwethaf?**

4.5.2 Mae Ffigur 29 yn dangos bod mwy nag un o bob pump o ddysgwyr (21.5%) wedi nodi y bu angen help arnynt gyda materion yn ymwneud â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol yn ystod y 12 mis blaenorol.

4.5.3 Nododd tua un o bob 16 (6.2%) o ymatebwyr y bu angen help arnynt gyda materion yn ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd a rhywioldeb yn ystod y 12 mis blaenorol. Ymhlith y dysgwyr hynny sy'n ystyried bod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni, cynyddodd y ffigur hwn i fwy na hanner.

Ffigur 29 – Anghenion cymorth ymatebwyr yn ystod y 12 mis diwethaf (Sylfaen: 1,821)



4.5.4 Mae Tabl 8 yn rhoi dadansoddiad yn ôl rhywedd o anghenion cymorth mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu rhywiol. Ym mhob achos, roedd yn fwy tebygol bod angen cymorth ar ymatebwyr benywaidd nag ymatebwyr gwrywaidd.

Tabl 8 – Gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran profiadau o fwlio ac aflonyddu

| | Gwrywaidd (%) (Sylfaen: 463) | Benywaidd (%) (Sylfaen: 675) |
|---|---|---|
| Bwlio corfforol | 5.2 | 7.1 |
| Bwlio ar-lein | 4.5 | 7.3 |
| Aflonyddu rhywiol | 6.5 | 7.4 |

4.5.5 Y dysgwyr hynny a nododd fod eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni oedd fwyaf tebygol o nodi y bu angen help arnynt mewn perthynas â bwlio corfforol (un o bob chwech o ymatebwyr) ac aflonyddu rhywiol (un o bob wyth o ymatebwyr).

**Sut mae eich anghenion cymorth yn cael eu diwallu?**


4.5.6 Lle y nododd ymatebwyr fod angen cymorth arnynt, gofynnwyd iddynt a oedd yr angen hwnnw wedi cael ei ddiwallu gan eu darparwr dysgu neu yn rhywle arall, neu a oedd heb ei ddiwallu.

4.5.7 Fel y gwelir yn Ffigur 30, nododd tua thraean (32.7%) (gweler Ffigur 30) o’r ymatebwyr yr oedd angen help arnynt gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant fod eu darparwr dysgu wedi diwallu'r angen hwn.

4.5.8 Nododd cyfrannau tebyg o ymatebwyr fod eu darparwr dysgu wedi diwallu eu hanghenion cymorth mewn meysydd megis trafnidiaeth, cyllid, a'r gallu i gael gafael ar nwyddau mislif.

4.5.9 Nododd cyfrannau llawer llai o ymatebwyr fod eu darparwr dysgu wedi gallu diwallu eu hanghenion cymorth mewn perthynas â bwlio, aflonyddu a hunaniaeth o ran rhywedd.

Ffigur 30 – Lle y nodwyd bod angen cymorth, a yw'r angen hwn wedi cael ei ddiwallu?




Noder: Mae cwestiwn amlddewis ar gael.

Noder: mae nifer sylfaen isel ar gyfer aflonyddu rhywiol, y gallu i gael gafael ar nwyddau mislif, bwlio corfforol a bwlio ar-lein.

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

4.5.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am LCA a thlodi bwyd. Nododd tua chwarter (23.4%) yr ymatebwyr eu bod wedi gwneud cais am LCA ac wedi ei gael (Tabl 9).


Tabl 9 – Dros y 12 mis diwethaf, a ydych wedi gwneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)?

| Cais am LCA | Nifer y dysgwyr | Canran y dysgwyr (%) |
|---|---|---|
| Ydw – wedi gwneud cais ac wedi ei gael | 259 | 23.4 |
| Ydw – wedi gwneud cais ac wedi cael fy ngwrthod | 56 | 5.1 |
| Ydw, rwy'n aros am ymateb | 16 | 1.4 |
| Nac ydw | 775 | 70.1 |
| Cyfanswm | 1,106 | 100.0 |

**Tlodi bwyd**

4.5.11 Nododd tua chwarter yr ymatebwyr eu bod yn gwybod am fyfyrwyr eraill yn lleoliad eu darparwr dysgu nad ydynt yn gallu fforddio prynu cinio yn yr ysgol/coleg (25.6%) neu sy'n dod i'r ysgol/coleg yn llwglyd (24.8%) (gweler Ffigur 31).


Ffigur 31 – Yn eich ysgol/coleg chi, a ydych yn gwybod am unrhyw fyfyrwyr nad ydynt yn gallu fforddio prynu cinio/sy'n dod i'r ysgol yn llwglyd?




4.5.12 Mae Ffigur 32 yn dangos cyfran y dysgwyr a nododd fod eu sefyllfa ariannol wedi effeithio ar eu gallu i fwyta digon o fwyd iach a maethlon.

4.5.13 Nododd tri o bob deg (29.8%) eu bod wedi bod yn llwglyd ond na wnaethant fwyta yn ystod y 12 mis diwethaf a nododd dros chwarter y dysgwyr (25.8%) eu bod wedi bwyta llai nag y dylent.

Ffigur 32 – Profiadau ymatebwyr o dlodi bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf



## 4.6 Sylwadau eraill

4.6.1 Rhoddodd 72 o ymatebwyr sylwadau agored pellach am eu profiadau mewn addysg bellach. Roedd themâu'r sylwadau yn cynnwys effeithiau'r pandemig, iechyd meddwl, cyllid ac ADY.

4.6.2 Effaith COVID-19: Nododd llawer o ddysgwyr effaith negyddol COVID-19 ar eu haddysg a'u sgiliau cymdeithasol. Er enghraifft, nododd un dysgwr,

> "Gwnaeth Cofid [sic] lanast o bethau i unigolion ym mlwyddyn 11 yn 2020 oherwydd cafodd TGAU eu canslo a doedd dim unrhyw gyfarwyddyd gan athrawon". Nododd dysgwr arall, "Yn ystod Cofid [sic], gwnaethon ni fel myfyrwyr golli sgiliau cymdeithasol ond efallai na chawson ni'r addysg roedd ei hangen arnon ni chwaith".

4.6.3 Iechyd Meddwl a Chymorth: Mynegodd nifer o ddysgwyr bryderon am iechyd meddwl a diffyg cymorth. Dywedodd un dysgwr,

> "Rwy'n credu y dylai fod mwy o help a chyfleoedd ar gael i bobl sy'n wynebu anawsterau o ran eu hiechyd meddwl". Dywedodd un arall, "Dwi ddim yn teimlo bod digon o adnoddau iechyd meddwl ar gael yn yr ysgol, yn enwedig i'r rheini sy'n gwneud yn dda yn eu pynciau".

4.6.4 Pryderon Ariannol: Roedd problemau ariannol yn thema gyffredin, ac roedd dysgwyr yn poeni am gost addysg a chostau byw. Nododd un dysgwr,

> "Pryderon am ariannu addysg uwch felly'n newid cynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn enwedig oherwydd prinder arian". Dywedodd un arall, "Mae cost trafnidiaeth yn rhywbeth arall sy'n fy atal rhag cael dewis rhydd i fynd i'r coleg pe bawn i am wneud hynny".

4.6.5 Cymorth ar gyfer ADY: Nid oedd dysgwyr ag ADY yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Er enghraifft, dywedodd un dysgwr,

> "Rwyf wedi bod yn aros am asesiad niwroddatblygiadol ers tair blynedd. Ni wnaeth fy ysgol gynradd nac uwchradd gydnabod fy anawsterau. Dywedodd un arall, "Mae angen mwy o gymorth a dealltwriaeth ar gyfer y rheini ag anghenion ychwanegol ac anafiadau".

## 5. Casgliadau

Mae canfyddiadau'r arolwg yn nodi nifer o gasgliadau allweddol:

5.1 Mae iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael yn her sylweddol i ddysgwyr mewn addysg ôl-16. Er bod sgoriau SWEMWBS rhwng 2020 a 2024 yn awgrymu bod rhywfaint o welliant, maent yn parhau i fod yn sylweddol is na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol (25.7) ac ar gyfer ymatebwyr arolwg 2023 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (23.5) (gweler adran 4.4.14 am ragor o fanylion). Mae angen casglu rhagor o ddata dros amser er mwyn deall a yw'r bwlch hwn yn lleihau.

5.2 Roedd anawsterau iechyd meddwl a llesiant yn llawer mwy cyffredin ymhlith ymatebwyr benywaidd nag ymatebwyr gwrywaidd. At hynny, nododd ymatebwyr benywaidd fod yr anawsterau hyn wedi tarfu ar eu haddysg a chofnodwyd sgoriau llesiant is ar eu cyfer o gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd.

5.3 Er bod dysgwyr yn teimlo bod darparwyr yn ceisio diwallu eu hanghenion o ran cymorth iechyd meddwl a llesiant, mae galw sylweddol heb ei fodloni o hyd.

5.4 Erys effeithiau'r pandemig yn gyffredin ymhlith dysgwyr sydd mewn addysg bellach ar hyn o bryd. Nododd dros draean o’r ymatebwyr fod eu cynlluniau addysg wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

5.5 Roedd saith o bob 10 o ddysgwyr yn teimlo bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu haddysg. Roedd mwy na chwech o bob 10 yn credu bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl ac roedd pedwar o bob 10 yn credu ei fod wedi effeithio ar eu rhagolygon swyddi hirdymor. Gan gofio bod y dysgwyr hyn wedi symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach ar ôl y pandemig, rhaid ystyried y rheini a all fod eisoes wedi camu allan o addysg.

5.6 Dirywiad yn ansawdd addysg ac effaith negyddol ar iechyd meddwl oedd y rhesymau a nodwyd amlaf dros newidiadau i gyrsiau dysgu y bwriadwyd eu hastudio. Nododd dysgwyr anawsterau yn ymwneud â gorbryder, iselder, a dirywiad

cyffredinol yn eu hiechyd meddwl. Gall fod angen cymorth ychwanegol ar y grwpiau mwyaf bregus hyn i'w galluogi i wneud cynnydd yn llwyddiannus.

5.7 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn fodlon ar ddilyn cyrsiau wyneb yn wyneb. Er bod cyfran fach iawn wedi dweud bod yn well ganddynt ddysgu ar-lein yn bennaf neu'n gyfan gwbl, roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddysgu wyneb yn wyneb.

5.8 Roedd y gallu i gael gafael ar y cyfarpar a'r cyfleusterau angenrheidiol i ddysgu gartref yn effeithiol yn uchel ar y cyfan, er bod rhywfaint o wahaniaeth yn bodoli o hyd ar gyfer y rheini y nodwyd eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.

5.9 Mae dysgwyr yn wynebu pwysau ariannol cynyddol a phryderon am gostau byw. Nododd un o bob 10 o ddysgwyr eu bod wedi ceisio cymorth ariannol yn ystod y 12 mis blaenorol a nododd tua chwarter eu bod yn cael LCA. Roedd effeithiau pryderon ariannol a nodwyd yn cynnwys tarfu ar addysg, anallu i fwyta digon o fwyd iach a maethlon, anallu i dalu costau trafnidiaeth a phryderon am ariannu addysg uwch.

5.10 Mae'r casgliadau hyn yn awgrymu bod y pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau ac wedi cael effaith fawr ar brofiadau addysgol ac iechyd meddwl dysgwyr. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil i lenwi'r bwlch parhaus mewn tystiolaeth ar gyfer addysg ôl-16, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd a chefnogi dysgwyr ar eu taith addysgol.

# 6. Argymhellion

6.1 Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil gyda dysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg bellach drwy brentisiaethau neu raglenni cyflogadwyedd. Bydd hyn yn gymorth i ddeall a yw profiadau'r dysgwyr hyn yn adlewyrchu profiadau ymatebwyr yr astudiaeth hon, a oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion yn bennaf.

6.2 Byddai darn ychwanegol o waith ymchwil wedi'i gynnal yn benodol gyda dysgwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu ADY yn fuddiol, gan ei bod yn amlwg bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar y dysgwyr hyn.

6.3 Mae angen gwneud gwaith ymchwil ychwanegol gyda dysgwyr a oedd ym mlwyddyn 11 ym mis Mawrth 2020. Nodwyd bod llai o ymatebwyr a oedd ym mlwyddyn 11 ym mis Mawrth 2020 yn yr arolwg hwn o gymharu â grwpiau blwyddyn eraill. Felly, argymhellir y dylid gwneud rhagor o waith ymchwil sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr hyn, er mwyn archwilio a yw eu teithiau dysgu wedi'u deall a'u cefnogi'n llawn.

6.4 Er bod proses casglu data reolaidd ar waith i gasglu data HWB ymhlith dysgwyr uwchradd (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion), nid oes proses o'r fath ar waith ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn awgrymu bod iechyd meddwl a llesiant yn broblem sylweddol ymhlith grwpiau penodol (gan gynnwys dysgwyr benywaidd a'r rheini y nodwyd bod ganddynt ADY). Drwy gymharu â 2020, gwelir hefyd rywfaint o newid o ran sgoriau SWEMWBS. Argymhellir y dylid ystyried datblygu proses gasglu arall fel bod modd monitro iechyd meddwl a llesiant grwpiau o ddysgwyr.

6.5 Nododd dros draean o’r ymatebwyr fod eu cynlluniau addysg gwreiddiol wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i ddeall yr effaith ar y rheini a adawodd addysg orfodol yn ystod y pandemig ac nad ydynt wedi ailgydio yn eu haddysg.

6.6 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tystiolaeth bod effeithiau'r pandemig ar ddysgwyr yn amrywio rhwng grwpiau blwyddyn. Mae angen monitro data sy'n dod i'r amlwg

ymhellach er mwyn deall effeithiau gwahanol y pandemig ar grwpiau blwyddyn penodol.

# 7. Atodiad 1 - Arolwg

Arolwg o brofiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16

A. Cyflwyniad

Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi effeithio ar y ffordd y mae pob un ohonom yn byw, yn dysgu ac yn gweithio. Hoffem ddeall mwy am brofiadau dysgwyr fel chi, mewn addysg ôl-16 ers y pandemig. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu yn ein helpu i nodi unrhyw gymorth ychwanegol y gall fod ei angen.

Hoffem glywed gennych chi os ydych yn byw ac yn astudio yng Nghymru, yn 16 i 24 oed, yn dysgu yn chweched dosbarth yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach, neu'n dilyn cwrs dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu i oedolion yn y coleg neu'r gymuned.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn yr arolwg hwn i baratoi adroddiad, a gaiff ei gyhoeddi ar dudalen we Ymchwil ac Ystadegau Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, bydd pob ymateb yn ddienw ac ni fydd modd eich adnabod mewn unrhyw ganfyddiadau a gyhoeddir. Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am eich barn am ddatganiadau, ond bydd cyfle ichi wneud sylwadau cyffredinol ar y diwedd. Dylai'r arolwg gymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Mae'r holl gwestiynau yn ddewisol.

Yn yr arolwg, ystyr y term ‘darparwr dysgu’ yw chweched dosbarth ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant neu leoliad yn y gymuned lle rydych yn astudio.

Ystyr y term ‘cwrs dysgu’ yw cwrs neu gymhwyster rydych yn ei ddilyn fel rhan o'ch dysgu yn yr ysgol, yn y coleg, gyda darparwr hyfforddiant neu yn y gymuned.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd eich ymatebion yn cael eu prosesu, cliciwch yma Diolch ymlaen llaw am eich help. Mae eich safbwyntiau'n bwysig i ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

B. Gwybodaeth am eich dysgu blaenorol a'ch dysgu presennol

Yn yr adran hon, rydym yn awyddus i ddeall mwy am eich dewisiadau dysgu blaenorol a'ch rhai presennol.  Ym mis Mawrth 2020, cafodd llawer o ysgolion, colegau a phrifysgolion eu gorfodi i gau oherwydd pandemig COVID-19. Rydym yn awyddus i wybod a yw eich dewisiadau dysgu wedi newid oherwydd hyn ac, os felly, sut?

| **1.** Ar ba ffurf roeddech yn dysgu ym mis Mawrth 2020? | | | |
|---|---|---|---|
| Roeddwn yn astudio mewn ysgol – hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 11 | | Roeddwn yn dilyn rhaglen hyfforddeiaeth | |
| Roeddwn yn astudio mewn chweched dosbarth ysgol | | Nid oeddwn mewn addysg nac yn astudio ar y pryd | |
| Roeddwn yn gwneud prentisiaeth gyda Choleg Addysg Bellach | | Roeddwn yn astudio mewn prifysgol | |
| Roeddwn yn astudio mewn Sefydliad Addysg Bellach ('coleg') | | Ddim yn siŵr | |
| Roeddwn yn gwneud prentisiaeth gyda darparwr hyfforddiant/dysgu seiliedig ar waith | | Arall – nodwch | |
| Roeddwn yn dilyn cwrs dysgu oedolion mewn canolfan dysgu cymunedol neu goleg | | | |

| 1a. Ym mis Mawrth 2020, ym mha flwyddyn ysgol oeddech chi? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 9 | 10 | 11 | Arall (rhowch fanylion) | Ddim yn gwybod |
| | | | | | |

| 1b. Ym mis Mawrth 2020, ym mha flwyddyn ysgol oeddech chi? | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | 13 | Arall (rhowch fanylion) | Ddim yn gwybod |
| | | | |

| 2. A wnaeth eich cynlluniau ar gyfer addysg newid mewn unrhyw ffordd oherwydd y pandemig? | | |
|---|---|---|
| Do | Naddo | Ddim yn gwybod |
| | | |

| 2a. Os ‘do’, a oedd hyn o ganlyniad i rai o'r canlynol? Dewiswch bob un sy'n gymwys | |
|---|---|
| Enillais raddau wedi'u pennu gan fy ysgol/coleg (yn hytrach na graddau wedi'u hasesu gan ganolfan ar sail arholiadau allanol) a oedd yn uwch na'r disgwyl, a rhoddodd hynny fwy o opsiynau i mi | |
| Enillais raddau wedi'u pennu gan fy ysgol/coleg (yn hytrach na graddau wedi'u hasesu gan ganolfan ar sail arholiadau allanol) a oedd yn is na'r disgwyl, a gwnaeth hynny gyfyngu ar fy opsiynau | |
| Ni chafodd y cwrs dysgu roeddwn yn bwriadu ei ddilyn ei gynnal oherwydd y pandemig | |
| Effeithiodd y pandemig ar ansawdd yr addysg a gefais. O ganlyniad, ni chefais y graddau roedd eu hangen arnaf i ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio'n wreiddiol | |
| Cafodd y pandemig effaith negyddol ar fy iechyd meddwl ac, o ganlyniad, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio | |
| Cafodd y pandemig effaith negyddol ar fy iechyd corfforol ac, o ganlyniad, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio | |

| | |
|---|---|
| Dewisais gymryd seibiant o ddysgu oherwydd y pandemig | |
| Oherwydd cyfrifoldebau gofalu yn sgil y pandemig, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio yn wreiddiol | |
| Oherwydd anghenion ariannol yn sgil y pandemig, ni fu modd imi ddilyn y cwrs roeddwn wedi bwriadu ei astudio yn wreiddiol | |
| Newidiodd fy nghynlluniau ar gyfer fy addysg mewn rhyw ffordd arall oherwydd y pandemig. Dywedwch fwy wrthym. | |

| 2b. Beth oedd y rheswm dros hyn? E.e. llai o brofiad dysgu, i gefnogi aelodau o'r teulu, ac ati. |
|---|
| |

| 2c. A fu modd ichi ddychwelyd at y cwrs dysgu roeddech wedi bwriadu ei ddilyn yn wreiddiol? | | | |
|---|---|---|---|
| Do, rwyf wedi gallu dychwelyd at fy nghynlluniau gwreiddiol? | Naddo, rwyf wedi dilyn llwybr gwahanol, h.y. newid pwnc neu gymhwyster | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Ddim yn gwybod |
| | | | |

| 3. Gyda pha fath o ddarparwr dysgu rydych yn astudio erbyn hyn? | | | |
|---|---|---|---|
| Chweched dosbarth ysgol | | Canolfan ddysgu neu goleg | |
| Coleg addysg bellach | | Ddim yn siŵr | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darparwr dysgu seiliedig ar waith | | Arall – nodwch | |
| Rwy'n dilyn rhaglen hyfforddeiaeth | | | |

| 4. Beth rydych yn ei astudio ar hyn o bryd? Dewiswch bob un sy'n berthnasol: | | | |
|---|---|---|---|
| TGAU | | Cwrs ESOL (Saesneg fel Ail Iaith neu Iaith Arall) | |
| UG a/neu Safon Uwch | | Prentisiaeth | |
| Cymhwyster galwedigaethol fel BTEC neu City and Guilds | | Cwrs dysgu i oedolion arall | |
| Bagloriaeth Cymru | | Cymhwyster Lefel 4 neu uwch (cwrs lefel gradd) | |
| Mynediad at Addysg Uwch | | Arall – nodwch | |
| Ddim yn siŵr | | | |

| 5. Rwyf wrthi'n astudio: | | | |
|---|---|---|---|
| Llawnamser | | Rhan-amser | |

| 6. Ar y cyfan, yn eich barn chi, pa effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar eich ...? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Negyddol iawn | Negyddol i raddau | Dim effaith | Cadarnhaol i raddau | Cadarnhaol iawn |
| Addysg | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagolygon ar gyfer y dyfodol | | | | | |
| Iechyd meddwl a llesiant | | | | | |

C. Y gallu i ddysgu

Yn yr adran hon, rydym yn awyddus i ddeall mwy am eich profiadau presennol o ddysgu ar-lein, dysgu gartref ac unrhyw darfu ar eich dysgu yn ddiweddar.

Atebwch y cwestiynau hyn gan feddwl am eich profiad dysgu pan wnaethoch lenwi'r arolwg hwn. Dewiswch un opsiwn ym mhob colofn sy'n berthnasol i chi.

| 7. Dewiswch sut mae eich cwrs yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd a beth fyddai eich dewis ddull cyflwyno. | Ar hyn o bryd, mae fy nghwrs dysgu yn cael ei ddarparu... (dewiswch un opsiwn) | Fy newis dull dysgu fyddai... (dewiswch un opsiwn) |
|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb yn gyfan gwbl | | |
| Wyneb yn wyneb yn bennaf gyda rhywfaint o adnoddau addysgu ar-lein | | |
| Yr un faint o ddysgu ar-lein ac addysgu wyneb yn wyneb | | |
| Ar-lein yn bennaf gyda rhywfaint o addysgu wyneb yn wyneb | | |
| Ar-lein yn gyfan gwbl heb unrhyw addysgu wyneb yn wyneb | | |

| |
|---|
| 8. Hoffem hefyd wybod mwy am eich profiadau presennol o ddysgu gartref. Dywedwch wrthym i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau isod. |

| | Cytuno'n gryf | Yn dueddol o gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn dueddol o anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gennyf gysylltiad da â'r rhyngrwyd gartref | | | | | |
| Mae gennyf fy lle fy hun i weithio gartref. | | | | | |
| Rwy'n cael y llonydd a'r tawelwch sydd eu hangen arnaf i ddysgu gartref. | | | | | |
| Mae gennyf y ffocws a'r cymhelliant i weithio ar-lein. | | | | | |
| Mae gennyf fy nghyfarpar fy hun ac nid oes rhaid i mi ei rannu ag aelodau eraill o'r cartref/teulu. | | | | | |
| Mae gennyf y cyfarpar cywir i weithio gartref | | | | | |

| 9. Pa gyfarpar rydych yn ei ddefnyddio i ddysgu gartref? Dewiswch bob un sy'n gymwys | |
|---|---|
| Gliniadur | |
| Llechen | |
| Ffôn clyfar | |
| Dim | |
| Arall – nodwch | |

Tarfu ar Ddysgu

Hoffem wybod am unrhyw beth sydd wedi eich atal rhag dysgu hyd eithaf eich gallu.

10. Dywedwch wrthym i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlynol wedi tarfu ar eich dysgu mewn addysg ôl-16 dros y 12 mis diwethaf?

| | Cytun o'n gryf | Yn dued dol o gytun o | Ddim yn cytun o nac yn angh ytuno | Yn dued dol o angh ytuno | Anghyt uno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Absenoldeb athrawon | | | | | |
| Eich salwch corfforol chi | | | | | |
| Salwch meddwl, e.e. straen neu orbryder | | | | | |
| Gweithredu diwydiannol/streiciau gan undebau'r athrawon | | | | | |
| Caledi ariannol/costau byw | | | | | |
| Cysylltedd â'r rhyngrwyd | | | | | |
| Ymddygiadau sy'n tarfu ar eraill yn yr ystafell ddosbarth | | | | | |
| Adeiladau/gwaith cynnal a chadw o ansawdd gwael yn eich darparwr dysgu | | | | | |
| Yr angen i gael cyflogaeth â thâl | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | | | | | |
| Bwlio | | | | | |
| Diffyg nwyddau mislif | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Materion yn ymwneud â hygyrchedd e.e. rhywun i helpu i gymryd nodiadau yn y dosbarth | | | | | |
| Materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus | | | | | |
| Arall – nodwch | | | | | |

| 10a. Pa rai o'r heriau canlynol rydych yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth gyhoeddus? (ticiwch bob un sy'n berthnasol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Argaeledd | Dibynadwyedd | Cost | Diogelwch | Problemau hygyrchedd |
| | | | | |
| Amser teithio | Cysur a glendid | Diffyg argaeledd | Arall | |
| | | | | |

| 10b. Os ydych yn wynebu heriau o ganlyniad i angen dysgu ychwanegol, dywedwch fwy wrthym |
|---|
| |

D. Meddyliau a theimladau

Yn yr adran hon, rydym yn awyddus i ddeall mwy am eich llesiant.  Rydym hefyd am ddysgu am eich meddyliau mewn perthynas â'ch dysgu ac a yw'r rhain wedi newid ers pandemig COVID-19.

| 11. Ymatebwch i'r datganiadau canlynol am eich profiad dysgu ers y pandemig. |
|---|

| | Cytuno'n gryf | Yn dueddol o gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn dueddol o anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf wedi magu hyder yn fy ngallu i ddysgu | | | | | |
| Mae fy ngallu i berfformio'n dda mewn asesiadau fel arholiadau ac aseiniadau ymarferol wedi gwella | | | | | |
| Rwyf wedi magu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol | | | | | |
| Mae fy ngallu i weithio'n dda fel rhan o dîm wedi gwella. | | | | | |
| Mae gennyf fwy o ddiddordeb yn fy astudiaethau. | | | | | |
| Mae fy nodau gyrfa wedi cynyddu. | | | | | |

12. Ymatebwch i'r datganiadau canlynol ynglŷn â sut rydych yn teimlo ar hyn o bryd:

| | Cytuno'n gryf | Yn dueddol o gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn dueddol o anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'n bwysig fy mod yn mynychu pob | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| sesiwn dysgu sydd wedi'i threfnu yn bersonol. | | | | | |
| Ers pandemig COVID-19, rwy'n teimlo ei bod yn llai pwysig fy mod yn mynychu sesiynau dysgu wedi'u trefnu yn bersonol. | | | | | |
| Mae'r dysgwyr ar fy nghwrs yn parchu'r staff addysgu. | | | | | |
| Mae'r dysgwyr eraill ar fy nghwrs dysgu yn parchu fy syniadau a fy safbwyntiau. | | | | | |
| Mae'r dysgwyr ar fy nghwrs yn ymrwymedig ac yn cymryd eu dysgu o ddifrif. | | | | | |
| Rwy'n teimlo bod fy nghyfoedion yn fy nerbyn. | | | | | |
| Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn yn fy narparwr dysgu. | | | | | |
| Rwy'n teimlo fy mod yn llai galluog nag | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| eraill ar fy nghwrs dysgu. | | | | | |

13. Dyma rai datganiadau am deimladau a meddyliau. Dewiswch yr ateb sy'n disgrifio'ch profiad o bob un dros y pythefnos diwethaf orau.

| | Byth | Anaml | Weithiau | Yn aml | Drwy'r amser |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol | | | | | |
| Rwyf wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol | | | | | |
| Rwyf wedi gallu ymlacio | | | | | |
| Rwyf wedi bod yn ymdopi'n dda â phroblemau | | | | | |
| Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir | | | | | |
| Rwyf wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill | | | | | |
| Rwyf wedi gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun am bethau | | | | | |

14. Nesaf, hoffwn ofyn pedwar cwestiwn ichi am eich teimladau am agweddau ar eich bywyd. Nid oes atebion cywir nac anghywir. Ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn, hoffwn ichi roi ateb ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn golygu “ddim o gwbl” a 10 yn golygu “yn gyfan gwbl”.

| | Ddim o gwbl 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | Yn gyfan gwbl 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'ch cynnydd y dyddiau hyn? | | | | | | | | | | | |
| Yn gyffredinol, i ba raddau rydych yn teimlo bod y pethau rydych yn eu gwneud yn eich bywyd yn werth chweil? | | | | | | | | | | | |
| Yn gyffredinol, pa mor hapus oeddech chi'n teimlo ddoe? | | | | | | | | | | | |
| Yn gyffredinol, pa mor bryderus oeddech chi'n teimlo ddoe? | | | | | | | | | | | |

E. Gwasanaethau Cymorth

Yn yr adran hon, rydym yn awyddus i ddeall mwy am unrhyw faterion y gallai fod gennych gwestiynau yn eu cylch, a allai fod yn peri anhawster i chi, neu y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnoch mewn perthynas â nhw. (Ceir dolenni i amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar ddiwedd yr arolwg).

| 15. Mae'r cwestiwn nesaf yn ymwneud ag a ydych wedi bod angen help gydag unrhyw beth yn ystod y 12 mis diwethaf ac a gafodd eich anghenion eu bodloni. | Dros y 12 mis diwethaf, a fu angen help arnoch gydag unrhyw un o'r canlynol? (ticiwch pob un | Ticiwch os gwnaeth eich darparwr dysgu ddiwallu eich anghenion? (ticiwch pob un sy'n gymwys) | Ticiwch os cafodd eich anghenion eu diwallu yn rhywle arall (ticiwch pob un sy'n gymwys) | Ticiwch os nad yw'r anghenion cymorth hyn yn cael eu diwallu ar hyn o bryd (ticiwch pob un sy'n gymwys) |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n gymwys) | | | |
| Iechyd meddwl a llesiant emosiynol | | | | |
| Cymorth dysgu/hyfforddiant ychwanegol | | | | |
| Rhywedd a hunaniaeth o ran rhywedd | | | | |
| Salwch corfforol | | | | |
| Anabledd | | | | |
| Y gallu i gael gafael ar nwyddau mislif | | | | |
| Bwlio corfforol | | | | |
| Bwlio ar-lein | | | | |
| | | | | |
| Aflonyddu rhywiol | | | | |
| Cludiant | | | | |
| Cyllid | | | | |
| Arall (rhowch fanylion): | | | | |

| |
|---|
| 15a.<br>Dros y 12 mis diwethaf, a ydych wedi gwneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)? |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r LCA yn seiliedig ar brawf modd ac mae ar gael i bobl ifanc dros oedran ysgol orfodol, 16-18 oed, sy'n astudio cwrs academaidd neu alwedigaethol llawn-amser. | | | | |
| Ydw – wedi gwneud cais ac wedi ei gael | Ydw – wedi gwneud cais ac wedi cael fy ngwrthod | Ydw, rwy'n aros am ymateb | Nac ydw | Nid wyf am ddweud |
| | | | | |

| 16. Yn eich ysgol/coleg chi, a ydych yn gwybod am unrhyw fyfyrwyr sydd ... | | | |
|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
| ...yn dod i'r ysgol/coleg yn llwglyd | | | |
| ...yn methu â fforddio prynu cinio yn yr ysgol/coleg | | | |

| 17. Dros y 12 mis diwethaf, a fu cyfnod, oherwydd prinder arian neu adnoddau eraill: | | | |
|---|---|---|---|
| | Do | Naddo | Ddim yn gwybod |
| Pan oeddech yn poeni na fyddai gennych ddigon o fwyd i'w fwyta? | | | |
| Pan nad oeddech yn gallu bwyta bwyd iach a maethlon? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pan oeddech ond yn bwyta ychydig o fathau o fwydydd? | | | |
| Pan wnaethoch orfod colli pryd? | | | |
| Pan wnaethoch fwyta llai nag y dylech? | | | |
| Pan nad oedd gennych fwyd gartref? | | | |
| Pan oeddech yn llwglyd ond na wnaethoch fwyta? | | | |
| Pan aethoch heb fwyd am ddiwrnod cyfan? | | | |

18. A oes unrhyw beth nad ydym wedi gofyn i chi amdano hyd yma yn yr arolwg hwn yr hoffech wneud sylwadau yn ei gylch? Defnyddiwch y blwch testun rhydd isod.

| |
|---|
| |

F. Demograffeg (ychydig amdanoch chi)

Drwy'r adran hon, rydym yn awyddus i ddeall mwy amdanoch chi. Rydym ond yn gofyn yr hyn sy'n angenrheidiol i ddadansoddi'r ymatebion i'r arolwg yn effeithiol. I'ch atgoffa, mae pob ymateb yn yr arolwg hwn yn wirfoddol.

| 19. Pa iaith mae eich teulu yn ei siarad gartref fel arfer? | |
|---|---|
| Cymraeg yn unig | |
| Saesneg yn unig | |
| Iaith arall/ieithoedd eraill yn unig (rhowch fanylion) | |

| | |
|---|---|
| Cymraeg a Saesneg | |
| Cymraeg ac iaith arall/ieithoedd eraill (rhowch fanylion) | |
| Saesneg ac iaith arall/ieithoedd eraill (rhowch fanylion) | |
| Cymraeg,  Saesneg ac iaith arall/ieithoedd eraill (rhowch fanylion) | |
| Nid wyf am ateb | |

| 20. A ydych yn dilyn eich cwrs (neu ran ohono) drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog? | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Ddim yn gwybod | |

| 21. A oeddech yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim unrhyw bryd rhwng 11 a 16 oed? | |
|---|---|
| Oeddwn | |
| Nac oeddwn | |
| Ddim yn gymwys, h.y.  Gadewais yr ysgol cyn 1980, neu euthum i'r ysgol dramor | |
| Ddim yn gwybod | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| 22. Beth yw eich rhyw? * Bydd cwestiwn am hunaniaeth o ran rhywedd yn dilyn | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Benywaidd | |
| Gwryw | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 23. A yw'r rhywedd rydych yn uniaethu ag ef yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd ar eich cyfer pan gawsoch eich geni? | |
| Ydy | |
| Nac ydy | |
| Os ‘Nac ydy’, nodwch eich hunaniaeth o ran rhywedd | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 24. Sut y byddech yn disgrifio eich grŵp ethnig? | |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | |
| Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog | |
| Gwyn | |
| Grŵp ethnig arall | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 25. A ydych yn ystyried eich hun yn anabl neu'n rhywun sydd ag anhawster dysgu? | |
| Ydw | |

| | |
|---|---|
| Nac ydw | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 26. A ydych yn gofalu am unrhyw un, neu’n cynnig unrhyw help neu gefnogaeth i unrhyw un, oherwydd cyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | |
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 27. A ydych wedi cofrestru fel gofalwr gyda'ch awdurdod lleol? | |
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Ddim yn siŵr | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 28. A oes gennych unrhyw gyfrifoldebau gofal plant fel prif ofalwr (e.e. rhiant/gwarcheidwad)? | |
| Oes | |

| | |
|---|---|
| Nac oes | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

| | |
|---|---|
| 29. A oes gennych brofiad o fod mewn gofal? (Mae hyn yn golygu unrhyw un sydd mewn gofal ar hyn o bryd neu wedi bod yng ngofal awdurdod lleol neu'n cael gofal gan berthynas am unrhyw gyfnod o amser unrhyw bryd yn ystod ei fywyd). | |
| Nac ydw | |
| Ydw | |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | |

30. Beth yw rhan gyntaf eich cod post? e.e. CF23 neu HR5

7. Diwedd yr arolwg a gwybodaeth am ailgysylltu

31. Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r arolwg. Os oes unrhyw beth ynglŷn â'r arolwg hwn yr hoffech wneud sylwadau yn ei gylch, neu os hoffech esbonio unrhyw atebion, defnyddiwch y blwch testun rhydd isod.

Cael Gafael ar Gymorth

Mae'r dolenni isod yn rhoi gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i gael gafael ar amrywiaeth o gymorth.

Cymorth ariannol

Cyngor ar bopeth (citizensadvice.org.uk) – Yn rhoi cyngor ar gymorth ariannol ac yn gallu eich cyfeirio at asiantaethau eraill a all eich helpu – 03444 77 20 20 (9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener).

Y Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU – Yn rhoi gwybodaeth am sut i wneud cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae'r LCA yn seiliedig ar brawf modd ac mae ar gael i bobl ifanc dros oedran ysgol orfodol, 16-18 oed, sy'n astudio cwrs academaidd neu alwedigaethol llawn-amser.

Help am ddim a diduedd gydag arian, wedi'i gefnogi gan y llywodraeth | HelpwrArian – Yn esbonio materion ariannol yn cynnwys benthyciadau a benthyca, cyfrifon banc ac argyfyngau ariannol mewn geiriau syml.

Cymorth iechyd meddwl a llesiant

Llinell Gymorth Iechyd Meddwl – Llinell Wrando a Chyngor Cymunedol (callhelpline.org.uk)Llinell gymorth iechyd meddwl benodol i Gymru, a all gynnig cymorth emosiynol a chlust i wrando, a'ch helpu i gysylltu â gwasanaethau cymorth a all fod ar gael yn eich ardal leol. Ffoniwch 0800 132 737 neu tecstiwch ‘help’ i 81066.

Mind Cymru – I gael gwybodaeth am fathau o broblemau iechyd meddwl, ble i gael help, meddyginiaeth, triniaethau amgen ac eiriolaeth.  Ffoniwch 0300 123 3393, e-bostiwch info@mind.org.uk neu tecstiwch 86463

Cymorth Iechyd Meddwl – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) – Yn eich cyfeirio at wasanaethau i unrhyw un sy'n poeni am ei iechyd meddwl ei hun neu iechyd meddwl rhywun arall.

Elusen Atal Hunanladdiad Papyrus UK | Atal Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc (papyrus-uk.org) – Elusen atal hunanladdiad ymysg pobl ifanc. HOPELINEUK 0800 068 4141 (10am i 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 2pm i 10pm ar benwythnosau a gwyliau banc).

Gwasanaethau cymorth eraill

Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU – Cysylltwch â chynghorwyr Byw Heb Ofn am ddim dros y ffôn, drwy sgwrs ar-lein, neges destun neu e-bost. Gall Byw Heb Ofn gynnig help a chyngor i unrhyw un sy'n wynebu cam-drin domestig neu drais rhywiol neu sy'n adnabod rhywun y mae angen help arno. Er enghraifft, ffrind, aelod o'r teulu neu gydweithiwr.

dewis.wales – Canolfan wybodaeth am sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau cymorth, gwybodaeth a chyngor. Gellir chwilio am wasanaethau yn ôl ardal leol a'r math o wasanaethau cymorth sydd eu hangen, fel cyngor ar dai a chymorth gyda bwyd.

Y Samariaid – Yn cynnig lle diogel i chi siarad unrhyw bryd, yn eich ffordd chi eich hun – am unrhyw beth sy'n eich poeni. Ffoniwch 116 123 am ddim neu e-bostiwch jo@samaritans.org

Gyrfa Cymru – Gall eich helpu i gynllunio eich gyrfa, paratoi i gael swydd, a dod o hyd i'r prentisiaethau, y cyrsiau a'r hyfforddiant cywir a gwneud cais amdanynt.

## Atodiad 2 – Y broses glanhau data

Roedd chwe cham i'r broses glanhau data, a oedd yn cynnwys dileu'r canlynol:

1. Unrhyw ymatebion a gyflwynwyd y tu allan i'r cyfnod casglu data.
2. Unrhyw ymatebion gwag.
3. Ymatebion lle roedd yr ymatebydd wedi ateb cwestiwn un ond wedi gadael pob maes arall yn wag.
4. Ymatebion yr amheuwyd eu bod yn rhai dyblyg.
5. Ymatebion lle y cymerodd yr ymatebydd lai na munud i ymateb i'r arolwg.
6. Unrhyw ymatebion eraill y barnwyd eu bod yn annilys yn dilyn gwiriad ar hap (roedd hyn yn cynnwys dau ymatebydd a nododd eu bod wedi 'ymddeol', un ymatebydd a oedd wedi cyflwyno ymatebion sbam, un athro ac un ymatebydd a nododd nad oedd mewn addysg yn 2020).

**Atodiad 3 – Methodoleg sgorio Fersiwn Fer Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin**

Caiff SWEMWBS ei sgorio drwy adio'r sgoriau ar gyfer pob un o'r saith eitem, a gaiff eu sgorio o 1 i 5 fel a ganlyn:

- “Byth” = 1 pwynt
- “Anaml” = 2 bwynt
- “Weithiau” = 3 phwynt
- “Yn aml” = 4 pwynt
- “Drwy'r amser” = 5 pwynt

Cafodd pob ymateb posibl ei godio i adlewyrchu'r patrwm sgorio uchod. Noder fod y raddfa yn defnyddio methodoleg sgorio bositif, gan olygu bod sgôr uwch yn awgrymu llesiant meddyliol cadarnhaol uwch.

Cafodd y newidynnau eu labelu fel a ganlyn ac mae'r ystadegau disgrifiadol wedi'u nodi isod:

- “Rwyf wedi bod yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol.”
- “Rwyf wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol.”
- “Rwyf wedi gallu ymlacio.”
- “Rwyf wedi bod yn ymdopi'n dda â phroblemau.”
- “Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir.”
- “Rwyf wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill.”
- “Rwyf wedi gallu gwneud fy mhenderfyniadau fy hun am bethau.”

Caiff y raddfa ei sgorio drwy adio'r ymatebion i bob eitem. Caiff yr ymatebion, o 1 i 5, eu cyfuno i ffurfio'r Mynegai, a all amrywio o 7 (y rheini a atebodd ‘Byth’ ar bob datganiad) i 35 (y rheini a atebodd ‘Drwy'r amser’ ar bob datganiad). Fel arfer, caiff sgoriau SWEMWBS eu cyflwyno fel sgoriau cymedrig a chanolrifol ac fel 10fed a 90fed canradd. Ni chânt eu dosbarthu ymhellach i gategorïau.